Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ymgynghoriad:
Medr/2025/02: Atodiad A

# Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd

## 1 Awst 2026 i 31 Gorffennaf 2027

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... **4**

**Beth yw'r pwerau ymyrryd a pha rai sy'n berthnasol i mi?** .......... **4**

**Pam ydym ni wedi paratoi'r ddogfen hon?** .......... **6**

**Pryd fydd ein pwerau'n berthnasol?** .......... **6**

**2. Ein Dull Rheoleiddio** .......... **7**

2.5. Cyd-destun Strategol .......... 7

2.6. Nodau Strategol .......... 7

2.7. Ein Hathroniaeth Reoleiddio .......... 9

2.8. Ein Hegwyddorion Rheoleiddio .......... 11

2.9. Ein Disgwyliadau .......... 12

RHAN 1: Ein pwerau ymyrryd penodedig o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022 ac ymyriadau amhenodedig eraill .......... 14

**3. Monitro a Sicrhau Cydymffurfedd** .......... **15**

*Darparwyr cofrestredig* .......... 15

*Darparwyr allanol* .......... 16

*Darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir* .......... 17

*6ed Dosbarth a Gyllidir mewn Ysgolion* .......... 17

*Darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru* .......... 17

*Pan fydd pethau'n mynd o chwith* .......... 17

**4. Ymyriadau heb eu nodi yn Neddf 2022** .......... **21**

**5. Ymyriadau a nodir yn Neddf 2022** .......... **23**

5.4. Monitro a Hybu Gwelliant .......... 25

5.5. Cyngor a Chynhorthwy .......... 26

5.6. Adolygiadau .......... 28

5.7. Amodau Cofrestru Parhaus Penodol .......... 29

5.8. Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (gan gynnwys amod ynglŷn â therfyn ffioedd) .......... 33

5.9. Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methu â chydweithredu .......... 37

5.10. Datgofrestru o dan Adran 41(3) Deddf 2022 .......... 41

5.11. Datgofrestru gorfodol o dan Adran 41(1) Deddf 2022 .......... 45

5.12. Hysbysu Gweinidogion Cymru o'r seiliau dros ymyrryd ganddynt .......... 48

RHAN 2: Ein pwerau ymyrryd penodedig sy'n weddill o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 sydd yn gymwys i ddarparwyr cofrestredig (mewn grym tan 31 Gorffennaf 2027) .......... 49

**6. Ymyrryd mewn perthynas â therfynau ar ffioedd myfyrwyr** .......... **50**

6.1. Sail ar gyfer ymyrryd .......... 50

6.2. Cyn Ymyrryd .......... 52

6.3. Y Broses Ymyrryd ... 53

**7. Ymyrryd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy ... 62**

7.1. Sail ar gyfer Ymyrryd ... 62

7.2. Cyn Ymyrryd ... 65

7.3. Y Broses Ymyrryd: Cyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ... 66

**8. Tynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl o dan Adran 39 Deddf 2015 ... 74**

8.1. Sail ar gyfer ymyrryd ... 74

8.2. Cyn Ymyrryd ... 76

8.3. Y Broses Ymyrryd ... 76

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Medr yn monitro cydymffurfedd darparwyr cofrestredig ac a gyllidir â gofynion rheoleiddiol ac, os bydd diffyg cydymffurfio, mae gennym bwerau statudol i ymyrryd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae darparwyr cofrestredig yn cael eu rheoleiddio trwy ein Hamodau Cofrestru a darparwyr a gyllidir yn cael eu rheoleiddio trwy ein Hamodau Cyllid. Mae rhai o'n pwerau hefyd yn berthnasol i ddarparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr cofrestredig, y cyfeirir atynt fel 'darparwyr allanol'. Mae gennym hefyd rai pwerau mewn perthynas â darpariaeth addysg drydyddol arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwr cofrestredig na darparwr a gyllidir.

**Beth yw'r pwerau ymyrryd a pha rai sy'n berthnasol i mi?**

1.2. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sail ar gyfer y pwerau ymyrryd sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant gan gynnwys darparwyr Addysg Uwch (AU), Addysg Bellach (AB) a darparwyr Addysg Drydyddol a Hyfforddiant Eraill yng Nghymru sy'n cael cyllid gan Medr a darparwyr eraill sy'n cyflwyno darpariaeth yng Nghymru. Nid yw'r mathau o ddarparwyr a restrir isod bob amser yn cau ei gilydd allan, gyda rhai darparwyr yn debygol o berthyn i fwy nag un 'math o ddarparwr'. Mae'r tabl hwn yn deillio o'r darpariaethau yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (‘Deddf 2022’), gyda 'phwerau penodedig' yn golygu’r ymyriadau diffiniedig hynny a nodir yn benodol yn Neddf 2022, ac ymyriadau amhenodedig' eraill yn golygu’r ymyriadau posibl hynny nad ydynt wedi'u diffinio'n benodol ond sy'n cael eu hategu'n gyffredinol gan y ddeddfwriaeth.

| Math o ddarparwr | Sail ar gyfer Ymyrryd |
|---|---|
| Darparwyr AU cofrestredig | • Yr holl bwerau ymyrryd penodol yn Neddf 2022 sy’n gysylltiedig ag Amodau Cofrestru Parhaus perthnasol<br>• Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig ag Amodau Cofrestru a phwerau cyllido |
| Partneriaid breiniol a elwir yn 'Ddarparwyr Allanol' sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr AU Cofrestredig | • Pwerau ymyrryd penodol Deddf 2022 ynghylch Monitro a Hybu Gwelliant, Cyngor a Chynhorthwy ac Adolygiadau sy'n gysylltiedig â'r Amod Cofrestru mewn perthynas ag Ansawdd<br>• Pwerau ymyrryd a nodir yn Neddf 2022 ynglŷn â Chyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydweithredu |
| Sefydliadau AU Rheoleiddiedig - **hyd at 31 Gorffennaf 2027 (gweler Rhan 2)** | • Pwerau ymyrryd penodedig sy’n dal yn weddill o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 mewn cysylltiad â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy<br>• Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad cymeradwy |
| Darparwyr AU nas cyllidir â Chyrsiau a Ddynodwyd yn Benodol | • Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaeth Medr i fonitro Cyrsiau a Ddynodwyd yn Benodol |

| Math o ddarparwr | Sail ar gyfer Ymyrryd |
|---|---|
| Sefydliadau AB nad ydynt wedi'u cofrestru | • Pwerau ymyrryd penodedig Deddf 2022 ynghylch Monitro a Hybu Gwelliant, Cyngor a Chynhorthwy ac Adolygiadau sy'n gysylltiedig â'r Amod Cyllid mewn perthynas ag Ansawdd<br>• Pwerau ymyrryd a nodir yn Neddf 2022 ynglŷn â Chyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydweithredu<br>• Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig ag Amodau Cyllid<br>• Pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru a bennir gan Ddeddf 2022 |
| Darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill a gyllidir nad ydynt wedi'u cofrestru | • Pwerau ymyrryd penodol a nodir yn Neddf 2022 ynghylch Monitro a Hybu Gwelliant, Cyngor a Chynhorthwy ac Adolygiadau sy'n gysylltiedig â'r Amod Cyllid mewn perthynas ag Ansawdd<br>• Pwerau ymyrryd a nodir yn Neddf 2022 ynglŷn â Chyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydweithredu<br>• Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig ag Amodau Cyllid |
| 6$^{ed}$ dosbarth a gyllidir mewn Ysgolion | • Pwerau ymyrryd penodedig Deddf 2022 ynghylch Monitro a Hybu Gwelliant, Cyngor a Chynhorthwy ac Adolygiadau mewn perthynas ag Ansawdd<br>• Ymyriadau amhenodedig eraill sy'n gysylltiedig ag Amodau Cyllid |
| Darpariaeth addysg drydyddol a hyfforddiant arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwr cofrestredig na darparwr a gyllidir | • Pwerau Deddf 2022 ynghylch Asesu Ansawdd a phwerau ymyrryd penodedig cysylltiedig ynghylch Cyngor a Chynhorthwy ac Adolygiadau mewn perthynas ag Ansawdd |

1.3. Nid yw **chweched ddosbarth ysgolion** yn cael eu cynnwys o dan amodau cofrestru na chyllido Medr oherwydd eu bod yn rhan o'r fframwaith rheoleiddio ac ariannu presennol sy'n berthnasol i ysgolion a'r awdurdodau lleol sy'n eu cynnal. Os bydd angen ymyrryd, byddwn yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol yn unig, nid yr ysgol.

1.4. Y bwriad yw bod y pwerau hyn yn galluogi rhywfaint o gydlyniad yn y dull ymyrryd rheoleiddiol ar draws y sector addysg drydyddol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'n dull o reoleiddio ansawdd, gyda rhai o'n pwerau ymyrryd penodedig yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr trydyddol. Mewn rhai meysydd rheoleiddio eraill, mae ymyriadau penodedig ar gyfer darparwyr cofrestredig, sy'n gysylltiedig ag Amodau Cofrestru, yn cael eu hailadrodd ar gyfer darparwyr addysg drydyddol nad ydynt wedi'u cofrestru fel ymyriadau amhenodedig sy'n gysylltiedig ag Amodau Cyllid. Yn achos Sefydliadau AB, mae gallu Medr i gyflawni ymyriadau penodedig ac amhenodedig yn cael ei ategu gan bwerau ymyrryd penodedig Gweinidogion Cymru eu hunain ar gyfer y darparwyr hyn.

**Pam ydym ni wedi paratoi'r ddogfen hon?**

1.5. Mae Adran 81 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi Datganiad sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu arfer ein pwerau ymyrryd ac i adolygu'r Datganiad hwnnw'n gyson. Mae'r ddogfen hon yn ateb y gofyniad hwnnw, gan ddarparu canllaw i'n pwerau ymyrryd penodedig dan Ddeddf 2022 a sut y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er mwyn cyflawnrwydd, rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am ymyriadau amhenodedig eraill y gallwn eu defnyddio fel dewis arall yn lle ein hymyriadau penodedig, rhagflaenydd i'n hymyriadau penodedig, neu ochr yn ochr â'n hymyriadau penodedig. Mae ein defnydd o bwerau ymyrryd yn cael ei oleuo gan ein hathroniaeth reoleiddio, a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Pryd fydd ein pwerau'n berthnasol?**

1.6. Mae llawer o'n pwerau ymyrryd ar gyfer darparwyr addysg uwch yn gysylltiedig ag Amodau Cofrestru o dan Ddeddf 2022. Bydd yr amodau'n cael eu cyflwyno mewn dwy gyfres, gyda'r amodau cyntaf mewn grym o 1 Awst 2026 a'r ail gyfres o 1 Awst 2027. Mae hyn yn golygu, er y bydd ein pwerau ymyrryd o dan Ddeddf 2022 yn berthnasol yn y rhan fwyaf o feysydd o 1 Awst 2026 ymlaen, na fydd y pwerau'n berthnasol mewn rhai meysydd tan 1 Awst 2027. Amlygir y meysydd hynny yn y ddogfen hon lle bo'n briodol.

1.7. Bydd yr Amodau Cyllid newydd ar gyfer pob darparwr addysg drydyddol arall yn dod i rym o 1 Awst 2026. Bydd y rhain yn disodli unrhyw Amodau Cyllid blaenorol o'r adeg honno. Bwriad y ddogfen hon felly yw bodloni'r ddyletswydd yn adran 66 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

1.8. gyntaf o bwerau newydd Deddf 2022 sy'n gysylltiedig â'r gofrestr. Fodd bynnag, gan na fydd pob un o'r pwerau newydd yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd, bydd Blwyddyn Academaidd 2026/27 yn flwyddyn drosiannol lle bydd amodau cofrestru Deddf 2022 ar waith ochr yn ochr â rhai gofynion rheoleiddiol sy'n weddill mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad o dan Ddeddf 2015. Er mwyn cyflawnrwydd, rydym wedi cynnwys y ddwy set o bwerau yn y ddogfen hon:

- Mae **RHAN 1** o'r ddogfen hon yn ymdrin â phwerau ymyrryd penodedig Deddf 2022 a mathau amhenodedig eraill o ymyriad. Er bod **RHAN 1** yn cynnwys holl bwerau penodedig Deddf 2022, rydym wedi amlygu ble y bydd rhai meysydd yn cael eu cyflwyno o fewn yr ail gyfres o Amod Cofrestru sy'n dod i rym o 1 Awst 2027.

- Nid yw **RHAN 2** o'r ddogfen hon yn gwahaniaethu'n sylweddol o'r datganiad a gyhoeddwyd eisoes o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Mae wedi'i chynnwys i esbonio sut mae elfennau o'r datganiad yn berthnasol i ddarparwyr cofrestredig (sydd hefyd yn sefydliadau rheoleiddiedig) nes iddynt gael eu disodli'n llawn gan ddarpariaeth y Ddeddf 2022. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y datganiad hwn cyn cyflwyno trefniadau Deddf 2015 yn 2017.

1.9. Bydd yr ystod lawn o amodau cofrestru ar gyfer darparwyr cofrestredig addysg uwch o dan Ddeddf 2022 yn dod i rym o 1 Awst 2027. Ar yr adeg honno bydd yr holl bwerau ymyrryd penodedig mewn cysylltiad â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad sy'n dal yn weddill o dan Ddeddf 2015 yn dod i ben am y darparwyr hyn. Disgwyliwn

ailgyhoeddi fersiwn o'r ddogfen hon heb **RAN 2** cyn dechrau Blwyddyn Academaidd 2027/28.

## 2. Ein Dull Rheoleiddio

2.1. Mae dull rheoleiddio Medr yn nodi'r egwyddorion arweiniol a fydd yn sail i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, gyda'r nod o gyflawni ein gweledigaeth "...i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy’n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a’r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb, ac ymgysylltiad yn greiddiol iddi”. Fel y corff sy'n atebol i Weinidogion Cymru am oruchwylio addysg drydyddol, rydym yn ymrwymedig i reoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar risg, gan gyd-fynd yn fanwl â'n gwerthoedd, sef Dysgu, Cydweithio, Cynnwys Pawb a Rhagori.

2.2. Mae ein dull yn ymwneud nid dim ond â gorfodi safonau, ond hefyd â gweithio ar y cyd gyda darparwyr addysg a rhanddeiliaid i gyflawni deilliannau a rennir. Bydd hyn yn cael ei oleuo gan ddata a mathau eraill o dystiolaeth sy'n ein helpu i arfer crebwyll, gan roi cyfrif am yr amrywiaeth o gyd-destunau a chenhadaeth sy'n trefnu addysg drydyddol ledled Cymru. Rydym yn deall bod tirwedd addysg drydyddol yn gymhleth ac yn ddeinamig, gan olygu bod angen fframwaith rheoleiddio sy'n gadarn ac yn addasadwy i anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi.

2.3. Mae athroniaeth reoleiddio Medr, sy’n cyd-fynd yn fanwl â'n gwerthoedd craidd, yn integreiddio cryfderau rheoleiddio sy'n seiliedig ar reolau (cydymffurfedd) a rheoleiddio sy'n seiliedig ar ddeilliannau (gwella’n barhaus). Mae arnom eisiau i ddarparwyr nid yn unig gydymffurfio'n unigol â'n gofynion rheoleiddiol, ond hefyd hybu’r sector trydyddol, er budd Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gynnal ymdeimlad o berchnogaeth ar eu cyfrifoldebau, gan feddu ar hyder i hysbysu am faterion cydymffurfedd pan fydd pethau'n mynd o chwith, a cheisio llywio gwelliannau’n barhaus.

2.4. Nod y dull hwn yw darparu sector addysg drydyddol ac ymchwil cadarn, cynhwysol a blaengar sy'n gallu ymateb i heriau yn y presennol a’r dyfodol.

### 2.5. Cyd-destun Strategol

2.5.1. Caiff ein dyletswyddau rheoleiddio eu grymuso gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022) ac maent yn cyfrannu at gyrraedd y nodau strategol yn ein Cynllun Strategol. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a oleuwyd gan flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r dyletswyddau a nodir yn Neddf 2022. Mae'n ofynnol i Medr baratoi cynllun strategol sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn a sut y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau strategol a roddir iddo o dan y Ddeddf.

2.5.2. Trwy gysoni ein dull rheoleiddio â blaenoriaethau a disgwyliadau cenedlaethol, ein nod yw bod darparwyr addysg drydyddol yn cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu'n gadarnhaol at amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach Cymru.

### 2.6. Nodau Strategol

2.6.1. Yn sail i'n dull o reoleiddio'r sector, a thrwy ymgynghori helaeth, byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio yn unol â'n nodau strategol:

- **Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr.**
  - **Amcan rheoleiddio:** Mae buddiannau pob math o ddysgwyr yn cael eu diogelu trwy atal arferion addysgol gwael neu ddulliau gwael o ymdrin â llesiant.
  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn ymgysylltu'n agos â dysgwyr ac yn gwneud eu llais yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n disgwyl i ddarparwyr ganolbwyntio ar, a rhoi sylw i, anghenion, profiadau a deilliannau dysgwyr o bob math.
- **Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.**
  - **Amcan rheoleiddio:** Mae rheoleiddio a chyllid wedi'u cydgysylltu ar draws addysg drydyddol, sy'n gwella cyfle cyfartal trwy leihau i'r eithaf y rhwystrau i allu dysgwyr i gamu ymlaen.
  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr a chyflogwyr i reoleiddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu dealltwriaeth o'r farchnad lafur ac sy'n cefnogi dysgwyr o bob cefndir i symud ymlaen rhwng gwahanol fathau o addysg drydyddol a gwaith trwy gydol oes, gan ennill gwybodaeth a sgiliau a fydd yn gwella eu bywydau.
- **Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus.**
  - **Amcan rheoleiddio:** Diwylliant o wella'n barhaus sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, yn codi safonau sylfaenol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o brofiad o ansawdd gwael.
  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr i adnabod a chynnal gofynion ansawdd trylwyr ar gyfer addysg drydyddol, sy'n rhoi hyder ac yn llywio gwelliant, gan hefyd hybu cyfle cyfartal. Bydd ein Fframwaith Ansawdd yn disgwyl i ddarparwyr ddangos safonau ansawdd uchel, gan ystyried eu gwahanol gyd-destunau a chenadaethau wrth i ni gymhwyso dull system gyfan, fel bod gwelliannau o fewn darparwyr unigol ac ar draws addysg drydyddol yn ei chyfanrwydd.
- **Tyfu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol.**
  - **Amcan rheoleiddio:** Diogelu uniondeb a chapasiti ymchwil ac arloesi trwy atal arferion neu amodau a allai erydu ansawdd, lleihau cynwysoldeb, neu danseilio cynaliadwyedd.
  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr a'r llywodraeth i gefnogi ymchwil ac arloesi sy'n gynaliadwy ac a gyflawnir ag uniondeb. Byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n disgwyl i ddarparwyr feithrin amgylcheddau a diwylliannau ymchwil ac arloesi sy'n gynhwysol. Trwy hybu cyfle cyfartal, byddwn yn galluogi cyfranogiad mwy amrywiol mewn gyrfaoedd ymchwil ac arloesi.
- **Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

- **Amcan rheoleiddio:** Mae mwy o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd yn helpu i ddiogelu'r Gymraeg ac yn ategu dyhead Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg.
- **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Gan ddefnyddio’r fframwaith hwnnw fel sail, byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n herio darparwyr i ehangu a gwella darpariaeth, o ran ei hansawdd a'i hygyrchedd, gan hefyd hybu mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws pob amgylchedd trydyddol.

## 2.7. Ein Hathroniaeth Reoleiddio

2.7.1. Caiff ein hathroniaeth reoleiddio ei harwain gan ddull cymesur, seiliedig-ar-risg sy'n cyfuno eglurder rheoleiddio seiliedig-ar-reolau â disgwyliadau ar gyfer gwella’n barhaus ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda dysgwyr a darparwyr ar ddylunio ein fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys profi sut y bydd ein dull a'n systemau rheoleiddio’n gweithio ar draws amrywiaeth o senarios. Byddwn yn darparu eglurder ynghylch ein gofynion rheoleiddiol, gan gymryd camau ymyrryd a gorfodi lle byddwn yn adnabod achosion o ddiffyg cydymffurfedd neu berfformiad gwael. Byddwn hefyd yn gweithio gyda dysgwyr, darparwyr a'r Llywodraeth i werthuso effeithiau ein dull rheoleiddio, fel ein bod yn ei wella dros amser er budd Cymru.

2.7.2. Mae ein dull rheoleiddio’n cyfuno sawl agwedd ar yr arddulliau rheoleiddio. Byddwn yn pennu rheolau clir, gorfodadwy sy'n sefydlu disgwyliadau gofynnol ar gyfer cydymffurfio, gan sicrhau bod darparwyr yn deall eu rhwymedigaethau ac yr ymdrinnir â diffyg cydymffurfedd ag ymyriad cymesur. Mae ein dull seiliedig-ar-risg yn golygu y bydd ein camau gweithredu’n gymesur â pherfformiad a chapasiti darparwyr. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gynyddu neu leihau goruchwyliaeth i adlewyrchu lefelau amrywiol o risg a pherfformiad, a chyfateb ymddiriedaeth â darparwyr cyfrifol wrth ganolbwyntio ymdrechion rheoleiddio lle mae eu hangen fwyaf. Ar yr un pryd, trwy ganolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar nodau trwy ddeilliannau mesuradwy, rydym yn annog darparwyr i ganolbwyntio ar gyrraedd y nodau cyffredin sydd gennym i gyd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Yn ganolog i'r athroniaeth hon mae ymrwymiad i hunanreoleiddio a chyfrifoldeb sefydliadol, gan rymuso darparwyr i reoli risgiau mewn modd rhagweithiol a sicrhau atebolrwydd i'w dysgwyr a'u rhanddeiliaid. Bwriad ein hathroniaeth yw gwireddu ein gweledigaeth a bydd yn cael ei harwain gan ein gwerthoedd craidd:

2.7.3. **Dysgu:** Mae **dysgu** yn treiddio i bob rhan o’n dull rheoleiddio, gan daro cydbwysedd rhwng cryfderau fframweithiau rheoleiddio sy'n seiliedig ar reolau a fframweithiau rheoleiddio sy’n seiliedig ar nodau. Mae dull sy'n seiliedig ar reolau’n darparu safonau sylfaenol eglur, cyson i ddarparwyr eu dilyn, gan sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â gofynion hanfodol. Trwy alinio hyn â rheoleiddio seiliedig-ar-nodau ar gyfer amodau priodol, byddwn hefyd yn annog darparwyr i arloesi yng nghyd-destun eu cenadaethau penodol, a gwella’n barhaus.

- **Cydymffurfedd a gwella:** Bydd Medr yn hybu amgylchedd rheoleiddio lle mae darparwyr yn cael eu hannog i ddysgu a thyfu, gan ateb nid dim ond y gofynion sylfaenol ond gan hefyd fynd ar drywydd deilliannau ehangach, uchelgeisiol sy'n cyfrannu at ragoriaeth gyffredinol system addysg drydyddol Cymru.

- **Ymateb i adborth:** Er mwyn lleihau ansicrwydd a biwrocratiaeth i'r eithaf, ni fyddwn ond yn newid ein gofynion rheoleiddiol sylfaenol yn ddetholus ac yn dilyn ymgynghori, ond byddwn hefyd yn hunan-fyfyriol, gan geisio adborth gan ddysgwyr a darparwyr am effeithiau ein gweithgarwch rheoleiddio, fel y gallwn wella ein dull dros amser.

2.7.4. **Cydweithio:** Mae **cydweithio** yn un o gonglfeini rheoleiddio effeithiol. Trwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a'u cynnwys, byddwn yn gosod disgwyliadau rheoleiddiol sydd nid yn unig yn cael eu deall ac yn orfodadwy, ond sydd hefyd yn cyd-fynd â chenadaethau amrywiol addysg drydyddol ledled Cymru. Mae arnom eisiau mynd ati hefyd trwy ein gweithgarwch rheoleiddio i hybu cydweithredu rhwng darparwyr, fel bod llwybrau clir i ddysgwyr, bod mewnwelediadau, arfer da ac adnoddau'n cael eu rhannu, a bod dyblygu'n digwydd dim ond lle mae hyn yn angenrheidiol i ateb y galw.

- **Dyluniad rheoleiddiol:** Bydd Medr yn datblygu ac yn profi amodau rheoleiddio mewn partneriaeth â dysgwyr a darparwyr, fel y ceir y lefel a ddymunir o gydymffurfedd a chyfraniad at flaenoriaethau strategol Medr ar lefel darparwyr ac ar draws y sector. Bydd hyn yn helpu darparwyr i gysoni eu deilliannau strategol eu hunain â'n gofynion rheoleiddiol ni, ac i ddeall sut y gellid eu cyflawni trwy gydweithio â darparwyr a phartneriaethau eraill.
- **Canlyniadau cyffredin:** Trwy gydweithio, bydd Medr a'i bartneriaid, gan gynnwys rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill yn ogystal â darparwyr, yn gweithio tuag at amcanion cyffredin, gan sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n ategu'r uchelgais ar y cyd i wella deilliannau addysgol i bob dysgwr yng Nghymru.

2.7.5. **Cynnwys Pawb: Mae cynhwysiant** yn mynnu bod gan bob dysgwr gyfleoedd cyfartal i gael budd o brofiadau a deilliannau addysgol o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys meithrin amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol, a hefyd cyflawni ein gweithgarwch rheoleiddio mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiaeth dysgwyr a darpariaeth drydyddol ledled Cymru.

- **Safonau cyffredin:** Mae dull seiliedig-ar-reolau Medr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ymlynu wrth ofynion sylfaenol, fel y gall pob dysgwr fod â hyder am y darparwr y maent yn astudio ynddo.
- **Hybu gwelliant:** Bydd darparwyr yn cael eu herio i bennu a chyflawni deilliannau mesuradwy, yng nghyd-destun eu cenadaethau penodol, fel eu bod yn gwella ansawdd a chyfle cyfartal y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol.

2.7.6. **Rhagori:** Byddwn yn mynd ar drywydd **rhagoriaeth** ar draws pob agwedd ar waith Medr. Byddwn yn cynorthwyo darparwyr i ddarparu sector addysg drydyddol yng Nghymru sydd nid yn unig yn cwrdd â'r disgwyliadau cyfredol, ond sydd hefyd yn ymegnïo i sicrhau gwelliant parhaus a chystadleurwydd rhyngwladol.

- **Disgwyliadau ac atebolrwydd:** Bydd ein system reoleiddio newydd yn sefydlu disgwyliadau uchel ar gyfer darparwyr, y sector addysg drydyddol a Medr ei hun. Byddwn yn casglu, yn cyfleu ac yn gweithredu ar ddata a mathau eraill o dystiolaeth sy'n helpu i ddeall perfformiad ar draws y lefelau hyn.
- **Hybu arloesi: Mae** dull Medr o fynd ar drywydd gwelliant parhaus yn ei gyd-destun yn annog darparwyr i arloesi a mynd ar drywydd rhagoriaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u cryfderau a'u dyheadau unigryw, ac sy'n cyflawni

lefelau uwch o berfformiad, gan ddwyn budd i ddysgwyr, cymdeithas a'r economi.

## 2.8. Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

2.8.1. Dyma'r egwyddorion a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer sut yr ydym yn sefydlu ac yn ateb ein gofynion rheoleiddiol.

1. **Canllawiau ac adnoddau eglur:** Rydym yn cyhoeddi canllawiau gydag esboniadau clir o'r gofynion, gan alluogi darparwyr i ateb gofynion rheoleiddiol a chyflawni deilliannau a ddymunir. Dros amser, bydd hyn yn cynnwys rhannu enghreifftiau o arfer da ar draws y sector addysg drydyddol i lywio gwelliant parhaus.
2. **Cyfathrebu tryloyw:** Rydym yn cyfathrebu'n glir ynglŷn â goblygiadau diffyg cydymffurfio, gan sicrhau bod darparwyr yn deall canlyniadau methu â chyflawni eu dyletswyddau rheoleiddiol. Mae'r tryloywder hwn yn meithrin diwylliant o atebolrwydd ac yn hybu cydymffurfedd rhagweithiol. Gallwn gyhoeddi gwybodaeth sy'n tynnu sylw at welliant parhaus neu faterion diffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael, lle ystyriwn fod hynny'n briodol er budd dysgwyr a'r cyhoedd ehangach.
3. **Lleihau'r baich i'r eithaf:** Rydym yn ystyried goblygiadau ein prosesau rheoleiddio ar gyfer llwyth gwaith, gan gynnwys trwy fewnwelediadau gan y gweithlu addysg drydyddol, i helpu i leihau biwrocratiaeth i'r eithaf a grymuso darparwyr i ganolbwyntio ar ddarparu addysg drydyddol ac ymchwil.
4. **Datblygu rheoliadau a phrosesau ar y cyd:** Mae Medr yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys rheoleiddwyr, arolygiaethau neu gyrff cyhoeddus perthnasol eraill, i ddatblygu prosesau rheoleiddio sy'n cyd-fynd â'u gofynion hwy eu hunain. Trwy ymgysylltu ac ymgyngoriadau, rydym yn sicrhau bod ein rheoliadau'n cael eu goleuo gan y rhai y maent yn effeithio arnynt, gan daro cydbwysedd rhwng anghenion darparwyr ar y naill law a gofynion Deddf 2022 ar y llaw arall. Mae'r dull hwn yn helpu darparwyr i ddeall disgwyliadau rheoleiddiol yn well a'u hintegreiddio o fewn eu gweithrediadau.
5. **Ymgysylltu:** Rydym yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddarparwyr ymgysylltu â ni'n uniongyrchol, trwy weithdai, sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd a llwybrau eraill. Mae hyn yn golygu bod darparwyr wedi'u harfogi'n dda i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac y gallant geisio arweiniad pryd bynnag y bo angen.
6. **Monitro ac Adborth Rhagweithiol:** Gan ddefnyddio hunan-adrodd cynnar, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth yn rhagweithiol, gan nodi problemau posibl yn gynnar a gweithio gyda darparwyr i fynd i'r afael â nhw cyn iddynt waethygu. Mae'r dull ataliol hwn yn helpu i gynnal safonau uchel ar draws y sector gan hefyd leihau i'r eithaf yr angen am ymyriadau statudol. Mae ein gweithgarwch monitro'n cael ei dargedu yn seiliedig ar natur y gofyniad, ein dyletswyddau statudol, a'r risg i ddysgwyr a phwrs y wlad.
7. **Gweithredu Cyfreithiol a Chyfarwyddiadol:** Pan fo angen, mae Medr yn cymryd camau wedi'u targedu ar sail tystiolaeth i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael. Gall hyn fod trwy ddefnyddio ymyriadau statudol penodedig neu amhenodol, neu gyfuniadau o'r rhain, yn ôl yr angen. Mae unrhyw ymyriadau o'r fath yn gymesur ac yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n gyson â'n gwerthoedd.

8. **Hyrwyddo Arfer Gorau:** Mae Medr yn annog darparwyr i edrych y tu hwnt i gydymffurfedd yn unig, gan feithrin diwylliant o werthuso a gwella'n barhaus.
9. **Dulliau Arloesol ac Ymatebol:** Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu a gwella ein prosesau rheoleiddio i addasu i amgylchiadau sy'n newid, gan sicrhau bod ein rheoliadau'n parhau i fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ddeddfwriaeth newydd a dadansoddi data i ragweld a mynd i'r afael â heriau hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o staff a dysgwyr.
10. **Cydnerthedd a Gweithredu â Ffocws:** Rydym yn gydnerth yn wyneb heriau, gan gadw ffocws ar ein dyletswyddau statudol a'n hamcanion strategol, a darparu cyfeiriad cyson i ddarparwyr. Rydym yn ymrwymedig i gymryd camau cymesur ac amserol i sicrhau cydymffurfedd a rhagoriaeth mewn addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.

## 2.9. Ein Disgwyliadau

2.9.1. Yn Medr, rydym yn ymrwymedig i weithio ar y cyd gyda'r holl ddarparwyr i greu amgylchedd o wella'n barhaus, atebolrwydd a rhagoriaeth. Yn yr ysbryd hwn, rydym yn amlinellu'r ymrwymiadau a'r disgwyliadau canlynol sy'n llywio ein hymdrechion ar y cyd:

- **Ymrwymiad i Gydymffurfedd ac Uniondeb:**
  Ymddiriedir cyfrifoldeb i ddarparwyr gydymffurfio'n llawn â gofynion rheoleiddiol. Nid mater o fodloni rhwymedigaethau yn unig yw hyn, ond o hybu ymddiriedaeth ac uniondeb ar draws y sector. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gymryd perchnogaeth ar eu prosesau cydymffurfio, gan wreiddio safonau rheoleiddiol yn eu gweithrediadau o ddydd i ddydd a dangos dull rhagweithiol o gynnal y safonau hyn.
- **Ymgysylltu â Chanllawiau Rheoleiddiol**
  Mae ymgysylltiad adeiladol â chanllawiau Medr yn allweddol i gynnal partneriaeth reoleiddiol gref. Dylai darparwyr werthfawrogi'r adborth a'r cyfeiriad a gynigir gan y rheoleiddiwr a gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- **Tryloywder a Hunan-Hysbysu**
  Rydym yn hybu diwylliant o fod yn agored a thryloyw. Pan fydd heriau'n codi, dylai darparwyr deimlo'n hyderus i hunan-hysbysu am unrhyw bryderon neu ddiffyg cydymffurfio mewn modd amserol. Mae'r dull "dim syrpreisys" hwn yn dangos atebolrwydd ac yn galluogi Medr i roi cymorth lle bo angen.
- **Rheoli a Lliniaru Risg yn Rhagweithiol**
  Mae dull blaengar o reoli risg yn hanfodol i gynnal safonau uchel. Disgwylir i ddarparwyr sefydlu strwythurau llywodraethu mewnol sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod a lliniaru risgiau yn gynnar.
- **Mynd ar Drywydd Gwelliant Parhaus**
  Er bod cyrraedd safonau rheoleiddiol sylfaenol yn hanfodol, rydym yn annog darparwyr i anelu'n uwch. Dylai gwelliant parhaus fod yn ganolog i genhadaeth pob sefydliad.
- **Cydweithio gyda Rhanddeiliaid**
  Ymdrech gydweithredol yw addysg, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu'n weithredol â'u rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, cyflogwyr, a'r gymuned ehangach.

- **Parch at Ymyriadau Rheoleiddiol**
  Pan fydd Medr yn darparu adborth neu'n awgrymu gwelliannau, y nod yw helpu sefydliadau i gwrdd â’n disgwyliadau. Disgwylir i ddarparwyr gofleidio'r canllawiau hyn yn adeiladol, gan weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i atal materion rhag dwysau.

## RHAN 1: Ein pwerau ymyrryd penodedig o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022 ac ymyriadau amhenodedig eraill

**NODYN:** Ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27 (1 Awst 2026 - 31 Gorffennaf 2027), cwmpesir y pwerau ymyrryd mewn perthynas â Therfynau Ffioedd a Chyfle Cyfartal ar gyfer Darparwyr Cofrestredig gan bwerau Deddf 2015 yn **RHAN 2.**

## 3. Monitro a Sicrhau Cydymffurfedd

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig yn y ddau categori fel y bo'n berthnasol (pob amod cofrestru), Darparwyr Allanol (Ansawdd) a Darparwyr Addysg Bellach a Hyfforddiant eraill a Gyllidir (pob amod cyllid, gan gynnwys Ansawdd).

### *Darparwyr cofrestredig*

3.1. Rydym yn monitro cymhwystra darparwr ar gyfer cofrestru a'i gydymffurfedd â'r Amodau Cofrestru cychwynnol fel rhan o'r broses a ddefnyddir gan ddarparwyr i wneud cais i ddod yn gofrestredig. Mae'r amodau cychwynnol hyn, a fydd mewn grym o 1 Awst 2026, yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheolaeth ariannol)
- Cynaliadwyedd ariannol
- Effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer cefnogi a hybu lles myfyrwyr a staff
- Effeithiolrwydd trefniadau dilysu
- Statws elusennol (categori craidd yn unig)
- Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr

Mae'r amodau cofrestru cychwynnol, gan gynnwys gofynion yr amodau a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer darparwyr yn cael eu cyhoeddi ar wahân gan Medr.

3.2. Bydd y broses ymgeisio ar gyfer cofrestru'n cynnwys craffu ar amrywiaeth o wybodaeth a ddefnyddir i wneud dyfarniad ynglŷn â chydymffurfedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth i ddangos tystiolaeth o gynaliadwyedd ariannol darparwr, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu a rheoli ac ansawdd ei ddarpariaeth. Lle y bo angen, bydd Medr yn ceisio gwybodaeth ychwanegol gan ddarparwr ar ôl cyflwyno ei gais, i helpu i benderfynu ar gydymffurfedd. Mae rhagor o wybodaeth am y broses i ymgeisio ar gyfer cofrestru'n cael ei chyhoeddi ar wahân.

3.3. Ar ôl cofrestru, rhaid i ddarparwyr gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus. Mae'r amodau parhaus hyn yn cwmpasu'r meysydd canlynol. Oni nodir yn wahanol, bydd yr amodau parhaus hyn yn dod i rym o 1 Awst 2026:

- Ansawdd
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheolaeth ariannol)
- Cynaliadwyedd ariannol
- Effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer cefnogi a hybu lles myfyrwyr a staff
- Effeithiolrwydd trefniadau dilysu
- Hysbysiad o unrhyw newid sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y gofrestr

- Cynlluniau diogelu dysgwyr
- Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- Rhoi sylw i gyngor neu arweiniad a roddir gan y Comisiwn (naill ai'n benodol neu i bersonau yn gyffredinol)
- Gwybodaeth, cynhorthwy a mynediad at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr
- Terfynau ffioedd (**Mewn grym o 1 Awst 2027).** Ar gyfer 2026/27 mae'r maes hwn yn cael ei gwmpasu gan bwerau Deddf 2015 – gweler **RHAN 2** o'r ddogfen hon am fanylion
- Cyfle cyfartal (**Mewn grym o 1 Awst 2027).** Ar gyfer 2026/27 mae'r maes hwn yn cael ei gwmpasu gan bwerau Deddf 2015 – gweler **RHAN 2** o'r ddogfen hon am fanylion
- Statws elusennol (categori craidd yn unig)
- Gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr
- Addysg cyfrwng Cymraeg
- Prosesau cwynion darparwyr

Mae'r amodau cofrestru parhaus, gan gynnwys gofynion yr amodau a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer darparwyr yn cael eu cyhoeddi ar wahân. Gall darparwyr cofrestredig orfod cydymffurfio ag amodau cyllid ychwanegol hefyd, gan gynnwys mewn perthynas â chyllid ymchwil ac arloesi Medr. Mae rhagor o wybodaeth am ein hamodau cyllid yn cael ei chyhoeddi ar wahân.

3.4. Rydym yn cyflawni ystod o weithgareddau monitro, sy'n hanfodol i ni allu cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, gyda gwybodaeth o brosesau monitro'n tanategu'r potensial i ymyrryd mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd monitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus, a monitro ansawdd addysg drydyddol, yn cael ei wneud trwy nifer o ddulliau, ond bydd yn cynnwys, er enghraifft: ystyried ffurflenni monitro a sicrwydd blynyddol a gyflwynir gan y darparwr; adolygu datganiadau ariannol blynyddol, rhagolygon a gwybodaeth ariannol arall; adolygu gwybodaeth am ansawdd, gan gynnwys unrhyw adroddiadau asesu neu arolygu; dadansoddi amrywiaeth o ddata a gyhoeddwyd ar berfformiad; ystyried cwynion a gafwyd ynglŷn â'r darparwr; ac unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol a gyflwynwyd. Er y gellir cael llawer o'r wybodaeth fonitro hon ar sail gylchol, gellir cael rhywfaint o wybodaeth fonitro, fel cwynion am ddarparwyr ac adroddiadau a gyflwynir am ddigwyddiadau difrifol, ar unrhyw adeg mewn amser.

### *Darparwyr allanol*

3.5. Byddwn yn monitro cydymffurfedd darparwyr allanol (darparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr rheoleiddiedig h.y. darpariaeth 'freiniol') â gofynion amodau cofrestru sy'n ymwneud ag ansawdd. Gwneir hyn ni waeth ble y mae'r darparwr allanol wedi'i leoli. Bydd monitro'n digwydd trwy'r prosesau a gymhwysir i ddarparwyr cofrestredig.

### *Darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir*

3.6. Er ei bod yn debygol y bydd llawer o golegau AB yn cael eu cofrestru ar gyfer eu darpariaeth AU, ar gyfer y darparwyr addysg bellach a hyfforddiant hynny a gyllidir nad ydynt wedi'u cofrestru, byddwn yn monitro eu cydymffurfedd â'n hamodau cyllid. Mae'r amodau cyllid hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, amodau mewn perthynas ag:

- Ansawdd
- Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheolaeth ariannol)
- Cynaliadwyedd ariannol
- Effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer cefnogi a hybu lles myfyrwyr a staff
- Cynlluniau diogelu dysgwyr
- Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- Rhoi sylw i gyngor neu arweiniad a roddir gan y Comisiwn (naill ai'n benodol neu i bersonau yn gyffredinol)

Mae rhagor o wybodaeth am ein hamodau cyllid yn cael ei chyhoeddi ar wahân.

### *6$^{ed}$ Dosbarth a Gyllidir mewn Ysgolion*

3.7. Ar gyfer 6$^{ed}$ dosbarth mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, mae dyletswydd arnom i fonitro a hybu ansawdd. Byddwn hefyd yn monitro'r gofyniad statudol i'r unedau 6$^{ed}$ dosbarth hynny gydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ac unrhyw amodau cyllid eraill. Mae rhagor o wybodaeth am ein hamodau cyllid yn cael ei chyhoeddi ar wahân.

### *Darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru*

3.8. Ar gyfer darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru, nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwyr cofrestredig na darparwyr a gyllidir, gallwn gael ein rhybuddio am faterion ansawdd. Ar gyfer darpariaeth addysg uwch, gall hyn fod trwy asesiadau ansawdd a gynhelir gan Medr neu ar ran Medr.

### *Pan fydd pethau'n mynd o chwith*

3.9. Ar gyfer yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru, lle mae monitro wedi darparu tystiolaeth o beidio â chydymffurfio â'r amodau cymwys, mae hyn yn goleuo ystyriaeth Medr i ymyriadau posibl a grynhoir yn **Ffigur 1** isod. Byddwn yn cymryd camau ymyrryd ar unrhyw adeg pan ydym o’r farn bod unrhyw Amod Cofrestru parhaus wedi cael ei dorri, neu’n debygol o gael ei dorri, gan Ddarparwr Cofrestredig neu fod unrhyw Amod Cyllid wedi cael ei dorri, neu’n debygol o gael ei dorri, gan ddarparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant eraill. Bydd y math o ymyriad yn dibynnu ar ystod o ffactorau, gan gynnwys:

- **Difrifoldeb** – Ar bwy y mae’r mater yn effeithio a beth yw graddfa a difrifoldeb yr effaith honno. Gellir ystyried yr effaith yn nhermau cwmpas a lefel unrhyw niwed i ddysgwyr, staff, arian cyhoeddus, enw da ac ati.
- **Parhad** – Am faint o amser y mae'r mater wedi bod yn parhau ac a yw'r mater yn un sy'n digwydd dro ar ôl tro.
- **Camau gweithredu’r darparwr** – Camau gweithredu y mae'r darparwr wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r mater.
- **Cyd-destun** - Yr hyn y mae ein cuddwybodaeth reoleiddiol ehangach yn ei ddweud wrthym.
- **Risg** – Y risg a achosir gan y darparwr a'n parodrwydd ni i dderbyn risg mewn perthynas â'r mater.
- **Dyletswyddau statudol** – Y goblygiadau i ddyletswyddau statudol Medr.

Bydd Medr yn ystyried y ffactorau uchod mewn modd hyblyg, ynghyd ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill, a gall y pwysau a roddir i bob un o'r ffactorau amrywio yn ôl ffeithiau'r achos. Bydd Medr yn ymateb i faterion fesul achos unigol.

3.10. Yn achos darparwyr allanol (darparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr cofrestredig) a darparwyr eraill a gyllidir, byddwn yn cymryd camau gweithredu fel a ganiateir gan ein pwerau ymyrryd. Gallwn ymyrryd trwy Ddarparwr Cofrestredig lle mae darparwr allanol, sy'n cyflwyno darpariaeth ar ei ran, wedi torri gofynion ansawdd. Byddem yn gwneud hyn ni waeth beth fo lleoliad y ddarpariaeth honno, gan olygu bod darparwyr allanol yng Nghymru, mewn mannau eraill yn y DU a thramor yn cael eu cwmpasu gan agweddau ar ein pwerau monitro ac ymyrryd.

**NODYN:** Ar gyfer Darparwyr Cofrestredig, ar gyfer blwyddyn drosiannol 2026/27 yn unig (1 Awst 2026 tan 31 Gorffennaf 2027), byddwn hefyd yn cymryd camau ymyrryd ar unrhyw adeg pan fyddwn yn ystyried bod ein gofynion rheoleiddiol sy'n weddill o dan Ddeddf 2015 (Terfynau Ffioedd a Gofynion Cyffredinol Cynlluniau Ffioedd a Mynediad Cymeradwy) wedi cael eu torri, neu’n debygol o gael eu torri. Mae hyn yn berthnasol i Ddarparwyr Cofrestredig sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy yn unig. Caiff y pwerau ymyrryd statudol hynny sy'n weddill o dan Ddeddf 2015 eu nodi yn **RHAN 2** o'r ddogfen hon.

3.11. Gall ymyriad fod ar ffurf ystod o gamau gweithredu, gan gynnwys camau gweithredu o dan bwerau Deddf 2022. Mae adran 81 Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyhoeddi Datganiad sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd ac i adolygu’r Datganiad hwnnw’n gyson. Mae'r ddogfen hon (ein dull rheoleiddio a phwerau ymyrryd) yn ateb y gofyniad hwnnw ac, er bod y gofyniad yn ymwneud ag ymyriadau penodol yn Neddf 2022, er mwyn cyflawnrwydd, mae ymyriadau amhenodedig eraill a all gael eu defnyddio gan Medr hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r ymyriadau eraill hyn yn cynnwys y defnydd posibl o gyllid fel ysgogiad i gydymffurfio.

## Ffigur 1. Ystyried ymyriadau posibl

**Tystiolaeth o Ddiffyg Cydymffurfio (neu ddiffyg cydymffurfio tebygol)**

Gall tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio gael ei dangos trwy'r canlynol:

- Ffurflenni Monitro/Sicrwydd
- Adolygiadau/Arolygiadau Ansawdd
- Data/Ystadegau
- Adroddiadau am Ddigwyddiadau Difrifol
- Cwynion
- Hysbysiadau neu Adroddiadau gan randdeiliaid eraill

**Ystyried y Dystiolaeth gan Medr**

Bydd Medr yn ystyried y dystiolaeth trwy ei hadolygu yn erbyn gofynion yr amodau.

**Difrifoldeb y diffyg cydymffurfio**

Gellir categoreiddio diffyg cydymffurfio'n fras o ran difrifoldeb neu barhad.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mân ddiffyg cydymffurfio | Diffyg cydymffurfio | Diffyg cydymffurfio difrifol neu Ddiffyg cydymffurfio sydd heb ei ddatrys trwy bartneriaeth | Diffyg cydymffurfio difrifol iawn neu Fynych | Nid yw'r darparwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru mwyach |

**Lefel yr Ymyriad**

Er mwyn bod yr ymyriad yn gymesur, bydd ystyriaeth Medr i'r ymyriad posibl yn ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys:

- difrifoldeb a pharhad y mater
- camau gweithredu'r darparwr
- cyd-destun
- risg
- goblygiadau i ddyletswyddau statudol Medr


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymyriad lefel isel** | **Ymyriad lefel ganolig** | **Ymyriad 'cyfarwyddiad ol' difrifol** | **Cam ymyrryd terfynol** | **Tynnu oddi ar y gofrestr yn orfodol** |

cyfat

3.12. Mae **Ffigur 2** yn rhoi trosolwg o'r sbectrwm o ymyriadau sydd ar gael i Medr. Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r sbectrwm hwn wedi cael ei gyflwyno fel Camau ar wahân, er y gall fod rhywfaint niwlo a gorgyffwrdd rhwng Camau mewn gwirionedd. Er bod y sbectrwm hwn yn amlinellu pwerau ymyrryd Medr mewn modd llinol er eglurder, gellir eu defnyddio mewn unrhyw drefn a ddewisir gan Medr. Dylid nodi nad yw'r ymyriadau amhenodedig yn **Ffigur 2** yn cynrychioli rhestr gynhwysfawr.

**Ffigur 2. Sbectrwm Ymyriadau Rheoleiddiol**

Gellir defnyddio ymyriadau mewn unrhyw drefn a gellir hepgor lefelau fel y bo'n briodol.



## 4. Ymyriadau heb eu nodi yn Neddf 2022

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig (pob amod cofrestru), Darparwyr Allanol (Ansawdd) a Darparwyr Addysg Bellach a Hyfforddiant eraill a Gyllidir (pob amod cyllid, gan gynnwys Ansawdd).

4.1. Gall Medr ddefnyddio ystod o ysgogiadau nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yn Neddf 2022 er mwyn ysgogi cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus. Mae'r ymyriadau amhenodedig hyn yn cynnwys, ymhlith eraill:

- **Ymgysylltu - ysgrifennu at a/neu gwrdd â darparwr** - Gallai ymgysylltu gynnwys ysgrifennu at a/neu gwrdd â Phennaeth/Is-Ganghellor y darparwr neu uwch reolwr perthnasol arall (e.e. Cyfarwyddwr Cyllid). Lle y bo'n briodol, gall hyn hefyd gynnwys ymgysylltu â Chadeirydd corff llywodraethu'r darparwr a/neu Gadeirydd pwyllgor perthnasol (e.e. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), ac o bosibl y corff llywodraethu ehangach.
- **Ei gwneud yn ofynnol monitro'r darparwr yn fanylach** – Lle adnabyddir mater diffyg cydymffurfio penodol, gellir ymgymryd â mwy o ymgysylltu a monitro i sicrhau bod y darparwr yn cymryd pob cam rhesymol i fynd i'r afael â'r materion. Gallai monitro manylach fod ar ffurf mynychder adroddiadau a/neu gyfarfodydd sy'n fwy nag a fyddai'n arferol. Gall hefyd gynnwys cyflwyno gwybodaeth ychwanegol, na fyddai'n ofynnol fel arfer.
- **Comisiynu adolygiad neu adroddiad** – Gall Medr gomisiynu adolygiad neu adroddiad lle mae'n ofynnol cael rhagor o wybodaeth am y materion cydymffurfio mewn darparwr. Gallai adolygiad neu adroddiad o'r fath oleuo'r camau gweithredu sydd i'w cymryd gan y darparwr i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ac o bosibl oleuo camau gweithredu pellach gan Medr, gan gynnwys penderfyniad i gychwyn ymyriad statudol neu beidio.
- **Gofyn am gynllun gweithredu** – Gall Medr ofyn i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd penodol sy'n peri pryder. Efallai y bydd Medr yn disgwyl i gorff llywodraethu'r darparwr fod â rôl o ran cymeradwyo a goruchwylio'r cynllun, gyda'r broses o gyflawni'r cynllun yn cael ei monitro gan Medr neu ei asiantau. Os yw'r darparwr yn aflwyddiannus wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, gallai hynny oleuo penderfyniad gan Medr ynghylch cychwyn ymyriad statudol neu beidio.
- **Cyhoeddi data, cynlluniau neu adroddiadau** – Gall Medr gyhoeddi gwybodaeth sy'n amlygu diffyg cydymffurfio gan ddarparwr, lle ystyrir bod hynny'n briodol. Ymhlith mathau eraill o wybodaeth, gallai hynny fod ar ffurf data, megis data perfformiad. Gallai hefyd fod ar ffurf cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ac adroddiadau, megis adroddiad ar unrhyw adolygiad a gomisiynwyd gan Medr. Gall yr wybodaeth gael ei chyhoeddi gan Medr neu gan gyrff sy'n gweithredu ar ran Medr. Gall cyhoeddi gwybodaeth o'r fath fod yn fodd i amlygu methiannau, gan felly helpu darparwyr eraill i osgoi sefyllfaoedd tebyg, a gweithredu fel cymhelliad i'r darparwr fynd i'r afael â'i ddiffyg cydymffurfio. Gellir cyhoeddi gwybodaeth ochr yn ochr ag ymyriadau a nodir gan Ddeddf 2022 hefyd.
- **Rhannu gyda rheoleiddwyr eraill** - Lle y bo'n briodol, bydd Medr yn rhannu gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfio gan ddarparwr gyda rheoleiddwyr eraill.

Mae dyletswydd ar Medr hefyd i wneud rhai o gyrff y Llywodraeth yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio perthnasol (e.e. UKVI, Prevent ac ati).

- **Defnyddio cyllid** - Gall amodau neu drothwyon cyllid cyhoeddedig Medr wneud darparwr nad yw'n cydymffurfio yn anghymwys ar gyfer rhai mathau perthnasol o gyllid Medr. Gellir gwneud hyn i warchod arian cyhoeddus a/neu i weithredu fel cymhelliad i'r darparwr fynd i'r afael â'i ddiffyg cydymffurfio. Efallai y bydd graddfa defnydd Medr o'i bwerau cyllido'n cael ei haddasu fel bod diffyg cydymffurfio mwy difrifol yn arwain at anghymhwystra cymesur fwy ar gyfer cyllid Medr.

4.2. Gall ymyriadau amhenodedig, fel yr enghreifftiau a nodir uchod, fod y prif ffyrdd y gall Medr orfodi Amodau Cyllid ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant nad ydynt wedi'u cofrestru. Gallant fod yn ddewis arall posibl yn lle'r ymyriadau lefel ganolig a nodir yn Neddf 2022 (lle mae'r ymyriadau hynny ar gael) a gallant hefyd weithredu fel rhagflaenydd i ymyriadau o'r fath. Er enghraifft, gallai darparwr gael cyfle i gyflawni cynllun gweithredu, gyda methiant dilynol i gyflawni'r cynllun hwnnw'n arwain at sbarduno ymyriad a bennir yn Neddf 2022. Gellir defnyddio ysgogiadau amhenodedig, gan gynnwys monitro manylach a'r rhai sy'n gysylltiedig â chyllid, ochr yn ochr â defnyddio bwerau ymyrryd penodol hefyd er mwyn ategu'r ymyriadau hynny ac ysgogi cydymffurfedd. Ar gyfer darparwyr a gyllidir nad ydynt ar y gofrestr, gall defnyddio pwerau cyllido fod yr ymyriad mwyaf difrifol y gall Medr ei ddefnyddio (Ar gyfer darparwyr addysg bellach, gall Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio ymyriadau mwy difrifol a nodir yn Neddf 2022 mewn ymgynghoriad â Medr).

## 5. Ymyriadau a nodir yn Neddf 2022

5.1. Mae ystod o ymyriadau wedi'u nodi’n benodol yn Neddf 2022 y gall Medr eu defnyddio i ymdrin â diffyg cydymffurfio, neu debygolrwydd o ddiffyg cydymffurfio, gan ddarparwr. Mae'r swyddogaethau ymyrryd hyn wedi'u nodi yn Adran 81 Deddf 2022 fel y pwerau yn adrannau canlynol y Ddeddf:

(a) Adran 36 (dyletswydd i fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus);

(b) Adran 37 (cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad â chydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus);

(c) Adran 38 (adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau);

(d) Adran 39 (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus);

(e) Adran 41 (datgofrestru);

(f) Adran 51 (dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno);

(g) Adran 52 (cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol);

(h) Adran 53 (adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol);

(i) Adran 73(4) (cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â dyletswydd i gydweithredu).

Manylir ar y pwerau hyn yn **Ffigur 2** mewn trefn esgynnol o ran difrifoldeb a, lle y bo’n briodol briodol, mae pwerau wedi'u grwpio gyda'i gilydd er rhwyddineb cyfeirio.

5.2. Er bod yr ymyriadau uchod i gyd yn ymwneud â darparwyr cofrestredig, mae cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd ac adolygiadau mewn cysylltiad ag ansawdd hefyd yn berthnasol i’r canlynol:

- Darparwyr allanol (darparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr cofrestredig);
- Darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir nad ydynt ar y gofrestr; a
- Darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwyr cofrestredig na darparwyr a gyllidir.

Gall cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â dyletswydd i gydweithredu gael eu defnyddio ar unrhyw adeg lle mae darparwr allanol neu ddarparwr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir (heb gynnwys darparwyr cofrestredig) wedi methu â darparu gwybodaeth, cynhorthwy a mynediad at ei gyfleusterau, systemau ac offer yr ydym ni, neu ein hasiantau, yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol iddo eu darparu at ddibenion arfer ein swyddogaethau. **Ym mhob adran isod rydym wedi cyfeirio at y mathau o ddarparwyr y mae'r pwerau ymyrryd yn berthnasol iddynt.**

5.3. Pan fyddwn yn bwriadu defnyddio ein pwerau ymyrryd penodedig, bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir ac yn dryloyw i'r darparwr. Mae Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gyhoeddi hysbysiad ynghylch rhai ymyriadau penodol, ond gall Medr hefyd benderfynu cyhoeddi gwybodaeth am ymyriadau eraill, a'r materion cydymffurfio cysylltiedig, lle mae o'r farn bod hynny'n briodol ac yn rhesymol. Gall gwybodaeth gael ei chyhoeddi hefyd gan gyrff eraill sy'n gweithredu ar ran Medr. Er y bydd Medr yn ystyried y risgiau posibl i ddarparwr sy'n gysylltiedig â chyhoeddi gwybodaeth am unrhyw ymyriad, rhaid taro cydbwysedd rhwng hyn ac ystyriaethau ehangach sy'n cynnwys, er enghraifft, yr angen i hybu cydymffurfedd ac ysgogi gwelliant parhaus.

## 5.4. Monitro a Hybu Gwelliant

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig (pob Amod Cofrestru Parhaus), Darparwyr Allanol (Ansawdd yn unig) a Darparwyr Eraill a Gyllidir – gan gynnwys Darparwyr AB a Hyfforddiant a Gyllidir a 6ed Dosbarth a Gyllidir mewn Ysgolion (Ansawdd yn unig).

5.4.1. Fel a nodir uchod, mae Medr yn cyflawni gweithgarwch monitro mewn cysylltiad â chydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus ac ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig.

5.4.2. **Amodau cofrestru parhaus** - Mae Adran 36 Deddf 2022 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Medr i fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus gan ddarparwyr cofrestredig. Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr yn cael eu monitro yn erbyn gofynion eu categori cofrestru penodol. Fel a nodir yn adran 3.4, bydd llawer o weithgarwch monitro Medr mewn cysylltiad â chydymffurfio ag Amodau Cofrestru parhaus yn gylchol ac yn rheolaidd ei natur. Er nad yw monitro rheolaidd o'r fath yn ymyriad yng ngwir ystyr y gair, gellir cyflawni gweithgarwch monitro manylach lle adnabuwyd pryderon. Gall y monitro manylach hwn danategu camau ymyrryd pellach. Lle mae monitro'n adnabod meysydd ar gyfer gwella, neu enghreifftiau o arfer da, gall Medr hefyd ddyroddi cyngor neu ganllawiau i helpu i hybu cydymffurfedd.

5.4.3. **Ansawdd** - Mae Adran 51[1] Ddeddf 2022 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Medr i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno. Mae hyn yn cynnwys addysg drydyddol:

(a) a ddarperir gan, neu ar ran, darparwyr cofrestredig (i'r graddau y mae'r addysg drydyddol yn ymwneud â chategorïau cofrestru'r darparwyr); neu

(b) a gyllidir gan Medr neu a sicrheir fel arall ganddo.

O ganlyniad, mae'r ddyletswydd hon i fonitro a hybu gwelliant mewn perthynas ag ansawdd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru neu sy'n ddarostyngedig i Delerau ac Amodau Cyllid Medr. Mae rhagor o fanylion am drefniadau Medr i fonitro ansawdd addysg drydyddol ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno wedi'u nodi yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd Medr.

[1] Nid yw Adran 51 o Ddeddf 2022 yn ymestyn i ddarparwyr a ariennir o dan adran 65 o Ddeddf 1992 – Er nad yw'r ddyletswydd yn ymestyn i ddarparwyr a ariennir o dan adran 65, gall Medr arfer adran 53 o Ddeddf 2022 mewn perthynas â'r darparwyr hynny.

## 5.5. Cyngor a Chynhorthwy

| |
|---|
| **Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig (pob Amod Cofrestru Parhaus), Darparwyr Allanol (Ansawdd yn unig) Darparwyr Eraill a Gyllidir – gan gynnwys Darparwyr AB a Hyfforddiant a Gyllidir a 6$^{ed}$ Dosbarth a Gyllidir mewn Ysgolion (Ansawdd yn unig) a Darpariaeth Drydyddol Arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwr cofrestredig na darparwr a gyllidir (Ansawdd yn unig). |

5.5.1. Un o'r pwerau ymyrryd lefel-is allweddol yw'r gallu i Medr, neu ei asiantau, roi cyngor neu gynhorthwy i ddarparwyr, er mwyn mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio neu'r tebygolrwydd o ddiffyg cydymffurfio. Manylir ar y pwerau hyn a nodir yn Adrannau 37 a 52 Deddf 2022 isod.

5.5.2. **Amodau cofrestru parhaus** - Mae Adran 37 Deddf 2022 yn galluogi Medr i roi, neu wneud trefniadau ar gyfer rhoi, cyngor neu gynhorthwy arall i ddarparwr cofrestredig at ddibenion sicrhau cydymffurfedd gan y darparwr â'i amodau cofrestru parhaus. Gall Medr roi'r cyngor neu'r cynhorthwy hwn ei hun neu gomisiynu corff arall i roi'r cyngor neu'r cynhorthwy hwn ar ei ran. Rhaid i gorff llywodraethu'r darparwr roi sylw i'r cyngor neu'r canllawiau a roddir gan Medr (neu ar ran Medr), ac mae hyn yn amod cofrestru parhaus gorfodol. Gall y cyngor fod ar ffurf cyngor a roddir yn benodol i'r darparwr hwnnw neu'n fwy cyffredinol (e.e. i'r holl ddarparwyr cofrestredig neu fathau penodol o ddarparwr).

5.5.3. **Ansawdd** - Mae adran 52 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn galluogi Medr i roi, neu wneud trefniadau ar gyfer rhoi, cyngor neu gynhorthwy arall i unrhyw berson at ddibenion (a) gwella ansawdd yr addysg neu gwrs trydyddol, neu (b) atal ansawdd yr addysg neu gwrs trydyddol rhag dod yn annigonol. O ganlyniad, dylai darparwyr ddisgwyl y gall Medr ymyrryd trwy roi cyngor a chanllawiau mewn achosion lle mae ansawdd addysg mewn perygl o ddod yn annigonol. Mae ansawdd addysg drydyddol, neu gwrs addysg drydyddol, yn cael ei ddiffinio fel annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n cael yr addysg neu'n gwneud y cwrs. Mae'r pŵer hwn i roi cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd yn berthnasol i ddarpariaeth drydyddol:

(a) a ddarperir gan, neu ar ran, darparwr cofrestredig;

(b) a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo; neu

(c) a ddarperir yng Nghymru ac nad yw'n dod o fewn paragraff (a) na (b) – Darpariaeth nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwr cofrestredig na darparwr a gyllidir yw hyn.

O ganlyniad, gellir defnyddio'r pŵer ymyrryd hwn mewn cysylltiad ag ansawdd ar gyfer: darparwyr cofrestredig, a'u partneriaid sy'n cyflwyno darpariaeth ar eu rhan; yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a gyllidir gan gynnwys darparwyr AU, darparwyr AB, darparwyr prentisiaethau, darparwyr dysgu oedolion, chweched dosbarth mewn ysgolion ac ati; a'r holl ddarparwyr eraill sy'n darparu addysg drydyddol yng Nghymru. Rhaid i gorff llywodraethu'r darparwr roi sylw i'r cyngor neu'r canllawiau a roddir gan Medr (neu gan asiant Medr ar ran Medr). Ar gyfer y darparwyr hynny sydd wedi'u cofrestru, mae hwn yn amod cofrestru parhaus gorfodol. Gall y cyngor fod ar ffurf cyngor a roddir yn benodol i'r darparwr hwnnw neu'n fwy cyffredinol (e.e. i'r holl ddarparwyr cofrestredig neu fathau penodol o

ddarparwr). Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Medr ar gyfer rhoi cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd Medr.

## 5.6. Adolygiadau

| |
|---|
| **Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig yn y ddau categori (pob Amod Cofrestru Parhaus), Darparwyr Allanol (Ansawdd yn unig) Darparwyr Eraill a Gyllidir – gan gynnwys Darparwyr AB a Hyfforddiant a Gyllidir a 6$^{ed}$ Dosbarth a Gyllidir mewn Ysgolion (Ansawdd yn unig) a Darpariaeth Drydyddol Arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwr cofrestredig na darparwr a gyllidir (Ansawdd yn unig). |

5.6.1. **Amodau cofrestru parhaus** - Mae adran 38 Deddf 2022 yn galluogi Medr i gynnal, neu gomisiynu rhywun arall i gynnal, adolygiad o unrhyw faterion y mae'n eu hystyried yn berthnasol i gydymffurfedd gan ddarparwr cofrestredig â'i amodau cofrestru parhaus. Gall adolygiadau fod yn gyffredinol eu natur, neu at ddiben penodol. Gall Medr ddefnyddio canlyniad ymchwiliad i oleuo gweithgareddau cyffredinol y mae'n eu cyflawni. Gall hefyd fod yn rhan o gamau rheoleiddio mae Medr yn penderfynu eu cymryd, gan fod yn angenrheidiol o bosibl i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth fanwl sy'n goleuo camau rheoleiddio mwy difrifol.

5.6.2. **Ansawdd** - Mae adran 53 Deddf 2022 yn galluogi Medr i gynnal, neu gomisiynu rhywun arall i gynnal, adolygiad o unrhyw faterion y mae'n ystyried eu bod yn berthnasol i ansawdd addysg drydyddol, neu i gwrs penodol o addysg drydyddol:

(a) a ddarperir gan, neu ar ran, darparwr cofrestredig;

(b) a gyllidir gan Medr neu a sicrheir fel arall ganddo; neu

(c) a ddarperir yng Nghymru ac nad yw'n dod o fewn paragraff (a) na (b).

O ganlyniad, gellir defnyddio'r pŵer ymyrryd hwn mewn cysylltiad ag ansawdd ar gyfer: darparwyr cofrestredig, a'u partneriaid sy'n cyflwyno darpariaeth ar eu rhan; yr holl ddarparwyr addysg drydyddol a gyllidir gan gynnwys darparwyr AU, darparwyr AB, darparwyr prentisiaethau, darparwyr dysgu oedolion, chweched dosbarth mewn ysgolion ac ati; a'r holl ddarparwyr eraill sy'n cyflwyno addysg drydyddol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Medr ar gyfer adolygiadau mewn perthynas ag ansawdd addysg drydyddol yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd Medr.

## 5.7. Amodau Cofrestru Parhaus Penodol

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig yn unig (pob Amod Cofrestru Cychwynnol a Pharhaus)

5.7.1. **Amodau parhaus penodol** - Mae Adran 29 Deddf 2022 yn galluogi Medr i osod Amodau Cofrestru parhaus penodol ar ddarparwr. Fel a ddangosir gan **Ffigur 1**, bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud os yw Medr yn adnabod diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru. Bydd y dyfarniad ynglŷn â'r amgylchiadau sy'n cyfiawnhau gosod amodau cofrestru parhaus penodol, a ffurf unrhyw amodau, yn cael ei wneud gan Medr. Nid oes angen i Medr fod wedi cyflawni mathau eraill o ymyriad anffurfiol na ffurfiol cyn gosod Amodau Cofrestru parhaus penodol, er y gall y rhain hefyd fod yn ddwysâd o ymyriad blaenorol. Gall Medr osod yr amodau hyn:

- Ar adeg y cofrestriad cychwynnol, lle adnabuwyd diffyg cydymffurfio ag amodau cofrestru cychwynnol, ond lle byddai'n anghymesur gwrthod cofrestriad.
- Ar ddarparwr sydd eisoes yn gofrestredig, ar unrhyw adeg lle adnabuwyd diffyg cydymffurfio ag Amodau Cofrestru parhaus a lle ceir cyfiawnhad dros gamau ffurfiol i fynd i'r afael â'r materion.

Ar ôl ei osod, gall Medr amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus penodol ar unrhyw adeg.

5.7.2. Mae'r broses ar gyfer gosod Amodau Cofrestru parhaus penodol wedi'i nodi isod ac yn y siart lif ddilynol.

**Cam 1: Hysbysiad cychwynnol a sylwadau'r darparwr**

5.7.3. Rhaid i Medr hysbysu corff llywodraethu'r darparwr yn ffurfiol cyn gosod, amrywio neu ddileu amodau cofrestru parhaus penodol. Rhaid i'r hysbysiad i'r corff llywodraethu:

(a) nodi rhesymau Medr dros fwriadu gosod yr amodau(au) cofrestru parhaus arbennig,

(b) nodi'r cyfnod pan all corff llywodraethu'r darparwr addysg drydyddol wneud sylwadau am yr amodau arfaethedig (heb fod yn llai na 28 diwrnod gan ddechrau â'r dyddiad y ceir yr hysbysiad), ac

(c) nodi'r ffordd y gellir gwneud y sylwadau hynny.

Rhaid i Medr roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan gorff llywodraethu'r darparwr wrth benderfynu a ddylid gosod yr Amodau Cofrestru penodol parhaus.

**Cam 2: Hysbysu, cyhoeddi ac adolygiadau o benderfyniadau**

5.7.4. Unwaith y bydd Medr wedi penderfynu a ddylid gosod amod cofrestru parhaus penodol newydd ai peidio, neu amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus penodol presennol ai peidio, rhaid iddo hysbysu corff llywodraethu'r darparwr yn ffurfiol o'i benderfyniad, a chyhoeddi'r hysbysiad. Bydd hysbysiadau o'r math hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Medr fel arfer, gyda'r union leoliad cyhoeddi'n cael ei bennu gan Medr. Rhaid i'r hysbysiad i'r corff llywodraethu:

- nodi'r amod newydd, yr amod fel y'i hamrywiwyd neu'r amod sy'n cael ei ddileu, fel y bo'n briodol, a
- nodi'r dyddiad pan fydd gosod, amrywio neu ddileu'r amod yn dod i rym.

Lle mae'r hysbysiad i gorff llywodraethu'r darparwr yn ymwneud â gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol, rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi:

(a) y seiliau dros osod neu amrywio'r amod,

(b) gwybodaeth am yr hawl i adolygu, ac

(c) y cyfnod pan ellir gwneud cais am adolygu'r penderfyniad (gweler isod).

5.7.5. Gall corff llywodraethu darparwr wneud cais am adolygiad gan yr Adolygydd Penderfyniadau o benderfyniad Medr i osod, neu amrywio, amod cofrestru parhaus penodol ar y darparwr. Person neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yw'r Adolygydd Penderfyniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau wedi'u nodi yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024 ac maent fel a ganlyn:

*Y broses ymgeisio a'r cyfnod pan fo'n rhaid gwneud cais*

5.7.6. Rhaid i gorff llywodraethu'r darparwr wneud cais am adolygiad o benderfyniad yn ysgrifenedig o fewn 40 o ddiwrnodau i benderfyniad Medr i osod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol ar y darparwr. Rhaid i'r cais nodi'r seiliau y ceisir adolygiad arnynt a chynnwys copi o'r penderfyniad sydd i'w adolygu, gan gynnwys unrhyw resymau dros y penderfyniad a roddwyd gan Medr, ac unrhyw wybodaeth ategol y mae corff llywodraethu'r darparwr yn dymuno i'r Adolygydd Penderfynu ei hystyried.

*Y weithdrefn i'w dilyn gan yr Adolygydd Penderfyniadau*

5.7.7. Ar ôl cael cais am adolygiad o benderfyniad, rhaid i'r Adolygydd Penderfyniadau anfon copi o'r cais ac unrhyw wybodaeth ategol at Medr, a dweud wrth Medr a chorff llywodraethu'r darparwr (h.y. y ddau barti) pa mor hir y mae'n credu y bydd yr adolygiad yn ei gymryd.

5.7.8. Caiff yr Adolygydd Penderfyniadau ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y partïon a gwahodd y naill a'r llall i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymateb i unrhyw wybodaeth ychwanegol a gyflwynir gan y parti arall. Rhaid i Medr a chorff llywodraethu'r darparwr ymateb i unrhyw gais am wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i'r cais ddod i law. Os yw'r Adolygydd Penderfyniadau yn gofyn am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol gan y naill barti neu'r llall, rhaid iddo anfon copi o'r canlynol at y parti arall:

1) unrhyw gais y mae wedi'i wneud am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol, a

2) unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol a ddarparwyd.

Rhaid i'r Adolygydd Penderfyniadau lunio argymhelliad ysgrifenedig a'i anfon at Medr a chorff llywodraethu'r darparwr.

*Argymhellion y gall yr Adolygydd Penderfyniadau eu gwneud*

5.7.9. Gall yr Adolygydd Penderfyniadau argymell bod Medr:

1) yn peidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu, lle nad yw'r Adolygydd Penderfyniadau’n canfod bod unrhyw reswm neu fod digon o reswm i Medr ailystyried ei benderfyniad, neu

2) yn ailystyried ei benderfyniad:

   i. Lle mae Medr wedi methu â chydymffurfio â gofyniad gweithdrefnol,

   ii. Lle mae'r darparwr wedi darparu gwybodaeth newydd,

   iii. Lle mae'r Adolygydd Penderfyniadau’n canfod nad yw Medr wedi ystyried unrhyw ffaith berthnasol, neu

   iv. Lle mae'r Adolygydd Penderfyniadau o’r farn bod y penderfyniad yn anghymesur.

*Camau i'w cymryd gan Medr neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad*

5.7.10. Ar ôl cael argymhelliad gan yr Adolygwr Penderfyniadau, rhaid i Medr:

1) ailystyried ei benderfyniad, os argymhellir ei fod yn gwneud hynny, a

2) hysbysu corff llywodraethu'r darparwr ynghylch canlyniad ailystyried ei benderfyniad, gan gynnwys ei resymau, o fewn 40 o ddiwrnodau i gael yr argymhelliad.

**Cam 3: Amodau’n dod i rym**


5.7.11. Os bydd corff llywodraethu'r darparwr yn hysbysu Medr nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad o’r penderfyniad, bydd yr amod, neu'r amrywiad i amod o'r fath, yn dod i rym ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad a ddyroddwyd i gorff llywodraethu'r darparwr. Fodd bynnag, ni chaiff amod cofrestru parhaus penodol, neu amrywiad i amod o'r fath, ddod i rym ar unrhyw adeg (a) pan ellid cyflwyno cais am adolygiad o’r penderfyniad neu (b) pan fo adolygiad o’r penderfyniad neu benderfyniad gan Medr yn dilyn adolygiad o'r fath yn yr arfaeth. Pan fydd y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hyn yn rhwystro amod cofrestru parhaus penodol, neu amrywiad i amod o'r fath, rhag dod i rym ar y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad i'r corff llywodraethu, rhaid i Medr benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd yn dod i rym. Mae'r dyddiad hwnnw yn y dyfodol yn amodol ar yr hyn a benderfynwyd gan Medr yn dilyn unrhyw adolygiad o’r penderfyniad.

**Cam 4: Dwysau ymyriad**

5.7.12. Os na chydymffurfir ag amod cofrestru parhaus penodol, gellir dwysau ymyriad i ddyroddi Cyfarwyddyd mewn cysylltiad â Diffyg Cydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus. Caiff y pŵer hwn i gyhoeddi Cyfarwyddyd ei nodi yn adran 5.8. Pan ystyrir bod y pŵer i gyhoeddi Cyfarwyddyd yn annigonol, gellir dwysau ymyriad i ddileu’r darparwr o gategori ar y gofrestr. Caiff y pŵer datgofrestru hwn o dan Adran 41(3) Deddf 2022 ei nodi yn adran 5.10.

## Siart Lif: Amodau Cofrestru Parhaus Penodol

Gellir atal ymyriad ar unrhyw adeg os yw'r darparwr yn cydymffurfio.



## 5.8. Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â diffyg cydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (gan gynnwys amod ynglŷn â therfyn ffioedd)

| **Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig yn unig (pob Amod Cofrestru Parhaus) |
|---|

5.8.1. **Cyfarwyddydau -** Mae adran 39 Deddf 2022 yn galluogi Medr i roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu darparwr os wedi'i argyhoeddi bod y corff llywodraethu wedi methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio ag unrhyw amod cofrestru parhaus. Yn achos methiant, neu fethiant tebygol, i gydymffurfio ag amod cofrestru parhaus, gall y cyfarwyddyd a ddyroddir gan Medr gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gydymffurfio â'r amod. Yn achos methiant i gydymffurfio ag amod ynglŷn â therfyn ffioedd, gall Medr hefyd, fel dewis arall yn lle cyfarwyddyd, neu yn ychwanegol at gyfarwyddyd, i gydymffurfio, gyfarwyddo'r corff llywodraethu i ad-dalu'r holl ffioedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd i'r darparwr addysg drydyddol (ystyr ffioedd uwchlaw'r terfyn yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig i'r graddau y mae'r ffioedd hynny'n mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys). Gall cyfarwyddyd nodi camau penodol y dylai'r corff llywodraethu eu cymryd (neu beidio) at ddiben cydymffurfio â'r amod cofrestru parhaus. Ar gyfer cyfarwyddyd mewn perthynas ag ad-dalu ffioedd dros ben, gall y cyfarwyddyd nodi'r modd y dylai'r ffioedd dros ben gael eu had-dalu, neu y gellir eu had-dalu.

5.8.2. **Canllawiau -** Gall Medr ddyroddi canllawiau ynghylch camau i'w cymryd at ddiben cydymffurfio â chyfarwyddydau. Cyn dyroddi canllawiau o'r fath, bydd Medr yn ymgynghori â chorff llywodraethu pob darparwr cofrestredig; a gall ymgynghori â chorff llywodraethu darparwyr addysg drydyddol eraill yng Nghymru fel y bo'n briodol.

5.8.3. Caiff y broses ar gyfer dyroddi Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â Diffyg Cydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus, gan gynnwys yr amod ynglŷn â therfyn ffioedd, ei nodi isod ac yn y siart lif ddilynol.

**Cam 1: Rhybudd a sylwadau'r darparwr**

5.8.4. Cyn rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu, rhaid i Medr roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu yn gyntaf. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn:

- nodi'r cyfarwyddyd arfaethedig,
- nodi'r rhesymau dros fwriadu ei roi,
- nodi'r cyfnod pan all y corff llywodraethu wneud sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig (heb fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad rhybuddio'n dod i law), a
- nodi'r ffordd y gellir gwneud y sylwadau hynny.

Rhaid i Medr roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan gorff llywodraethu'r darparwr wrth benderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd.

**Cam 2: Rhoi cyfarwyddyd, cyhoeddi ac adolygiadau o benderfyniadau**

5.8.5. 5.8.5 Ar ôl penderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Medr hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o'i benderfyniad. Os yw Medr yn rhoi cyfarwyddyd i'r

corff llywodraethu, rhaid i'r cyfarwyddyd nodi'r dyddiad y daw i rym. Ar yr un pryd ag y mae'n rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Medr hefyd roi datganiad i gorff llywodraethu'r darparwr sy'n nodi:

- y rhesymau dros roi'r cyfarwyddyd,
- gwybodaeth am yr hawl i adolygiad, a hefyd
- y cyfnod pan ellir gwneud cais am adolygu'r penderfyniad.

5.8.6. Os yw Medr yn rhoi cyfarwyddyd i ddarparwr, rhaid iddo:

- roi copi o'r cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru; a
- chyhoeddi'r cyfarwyddyd.

Bydd cyfarwyddydau o'r math hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Medr fel arfer, gyda'r union leoliad cyhoeddi yn cael ei bennu gan Medr.

5.8.7. Gall corff llywodraethu darparwr wneud cais am adolygiad gan yr Adolygydd Penderfyniadau o benderfyniad Medr i roi cyfarwyddyd. Person neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yw'r Adolygydd Penderfyniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau wedi'u nodi yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024 ac maent wedi'u cynnwys o baragraff 5.7.5.

**Cam 3: Cyfarwyddydau'n dod i rym**

5.8.8. Os bydd corff llywodraethu'r darparwr yn hysbysu Medr nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad, bydd y cyfarwyddyd yn dod i rym ar y dyddiad a nodwyd. Fodd bynnag, ni chaiff cyfarwyddyd ddod i rym ar unrhyw adeg (a) pan ellid cyflwyno cais am adolygiad o'r penderfyniad neu (b) pan fo adolygiad o'r penderfyniad neu benderfyniad gan Medr yn dilyn adolygiad o'r fath yn yr arfaeth. Pan fydd y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hyn yn rhwystro cyfarwyddyd rhag dod i rym ar y dyddiad a nodir, rhaid i Medr benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd yn dod i rym. Mae'r dyddiad hwnnw yn y dyfodol yn amodol ar yr hyn a benderfynwyd gan Medr yn dilyn unrhyw adolygiad o'r penderfyniad.

**Cam 4: Gorfodi**


5.8.9. Pan fo Medr yn dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus i gorff llywodraethu sefydliad, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd (yn amodol ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r Cyfarwyddyd). Os bydd corff llywodraethu'n methu â chydymffurfio'n foddhaol (ym marn Medr) â'r Cyfarwyddyd, bydd y Cyfarwyddyd yn orfodadwy trwy waharddeb yn unol ag Adran 82 Deddf 2022. Bydd ein penderfyniadau ynghylch bwrw ymlaen â gwaharddeb neu beidio yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos.

**Cam 5: Dwysau ymyriad**

5.8.10. Os ceir diffyg cydymffurfio mynych, gall ymyriad gael ei ddwysau i ddileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr. Caiff y pŵer datgofrestru hwn o dan Adran 41(3) Deddf 2022 ei nodi yn adran 5.10.

## Siart Lif: Cyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio ag Amodau Cofrestru Parhaus (gan gynnwys amod ynglŷn â therfyn ffioedd)

Gellir atal ymyriad ar unrhyw adeg os yw'r darparwr yn cydymffurfio.



## 5.9. Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methu â chydweithredu

| |
|---|
| **Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Allanol a Darparwyr AB a Hyfforddiant a Gyllidir (heb gynnwys Darparwyr Cofrestredig). |

5.9.1. **Dyletswydd i gydweithredu – darparwyr allanol –** Rhaid i gorff llywodraethu darparwr allanol (darparwr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwr cofrestredig) sicrhau bod person sy'n arfer swyddogaeth yn rhinwedd Adrannau 51, 53 neu 54(1) Deddf 2022 yn cael pa bynnag wybodaeth, cynhorthwy a mynediad at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr allanol y mae'r person yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol eu darparu at ddibenion arfer y swyddogaeth (gan gynnwys at ddiben arfer unrhyw bŵer o dan Adran 74 Deddf 2022). Y swyddogaethau a gwmpesir gan y ddyletswydd hon i gydweithredu yw:

- Adran 51 - Dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno;
- Adran 53 - Adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol
- Adran 54(1) – Asesu ansawdd addysg uwch
- Adran 74 – Mynd i fangre darparwr cofrestredig ac edrych ar ddogfennau, eu copïo a'u cymryd.

5.9.2. **Dyletswydd i gydweithredu – darparwyr addysg bellach a hyfforddiant (heb gynnwys darparwyr cofrestredig)** - Rhaid i gorff llywodraethu darparwr addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir o dan Adran 97 Deddf 2022 sicrhau bod person sy'n arfer swyddogaeth yn rhinwedd Adran 51 neu 53 yn cael pa bynnag wybodaeth, cynhorthwy a mynediad at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr y mae'r person yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol eu darparu at ddibenion arfer y swyddogaeth (gan gynnwys at ddiben arfer unrhyw bŵer o dan Adran 74 Deddf 2022).

5.9.3. **Cyfarwyddydau–** Os yw Medr wedi ei argyhoeddi bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd berthnasol i gydweithredu yn y paragraffau uchod, mae Adran 73(4) Deddf 2022 yn galluogi Medr i gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol at ddiben sicrhau darparu gwybodaeth, cynhorthwy neu fynediad fel a ddisgrifir ym mharagraffau 5.9.1 a 5.9.2 uchod (fel y bo'n briodol).

5.9.4. **Canllawiau -** Gall Medr ddyroddi canllawiau ynghylch camau i'w cymryd at ddiben cydymffurfio â chyfarwyddydau. Cyn dyroddi canllawiau o'r fath, bydd Medr yn ymgynghori â chorff llywodraethu pob darparwr cofrestredig; a gall ymgynghori â chorff llywodraethu darparwyr addysg drydyddol eraill yng Nghymru fel y bo'n briodol.

5.9.5. Caiff y broses ar gyfer dyroddi Cyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydweithredu ei nodi isod ac yn y siart lif ddilynol.

**Cam 1: Rhybudd a sylwadau'r darparwr**

5.9.6. Cyn rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu, rhaid i Medr roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu yn gyntaf. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn:

- nodi'r cyfarwyddyd arfaethedig,
- nodi'r rhesymau dros fwriadu ei roi,
- nodi'r cyfnod pan all y corff llywodraethu wneud sylwadau am yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd arfaethedig (heb fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad rhybuddio'n dod i law), a
- nodi'r ffordd y gellir gwneud y sylwadau hynny.

Rhaid i Medr roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan gorff llywodraethu'r darparwr wrth benderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd.

**Cam 2: Rhoi cyfarwyddyd, cyhoeddi ac adolygiadau o benderfyniadau**

5.9.7. Ar ôl penderfynu a ddylid rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Medr hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o'i benderfyniad. Os yw Medr yn rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu, rhaid i'r cyfarwyddyd nodi'r dyddiad y daw i rym. Ar yr un pryd ag y mae'n rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Medr hefyd roi datganiad i gorff llywodraethu'r darparwr sy'n nodi:

- y rhesymau dros roi'r cyfarwyddyd,
- gwybodaeth am yr hawl i adolygiad, a hefyd
- y cyfnod pan ellir gwneud cais am adolygu'r penderfyniad.

5.9.8. Os yw Medr yn rhoi cyfarwyddyd i ddarparwr, rhaid iddo:

- give a copy of the direction to the Welsh Ministers; and
- publish the direction.

Bydd cyfarwyddydau o'r math hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Medr fel arfer, gyda'r union leoliad cyhoeddi yn cael ei bennu gan Medr.

5.9.9. Gall corff llywodraethu darparwr wneud cais am adolygiad gan yr Adolygydd Penderfyniadau o benderfyniad Medr i roi cyfarwyddyd. Person neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yw'r Adolygydd Penderfyniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau wedi'u nodi yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024 ac maent wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.7.5.


**Cam 3: Cyfarwyddydau'n dod i rym**

5.9.10. Os bydd corff llywodraethu'r darparwr yn hysbysu Medr nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad, bydd y cyfarwyddyd yn dod i rym ar y dyddiad a nodwyd. Fodd bynnag, ni chaiff cyfarwyddyd ddod i rym ar unrhyw adeg (a) pan ellid cyflwyno cais am adolygiad o'r penderfyniad neu (b) pan fo adolygiad o'r penderfyniad neu benderfyniad gan Medr yn dilyn adolygiad o'r fath yn yr arfaeth. Pan fydd y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hyn yn rhwystro cyfarwyddyd rhag dod

i rym ar y dyddiad a nodir, rhaid i Medr benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd yn dod i rym. Mae'r dyddiad hwnnw yn y dyfodol yn amodol ar yr hyn a benderfynwyd gan Medr yn dilyn unrhyw adolygiad o’r penderfyniad.

## Siart Lif: Cyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio

Gellir atal ymyriad ar unrhyw adeg os yw'r darparwr yn cydymffurfio.



## 5.10. Datgofrestru o dan Adran 41(3) Deddf 2022

| |
|---|
| **Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig a, thrwy estyniad, Darparwyr Allanol sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran y Darparwyr Cofrestredig hynny. |

5.10.1. **Amgylchiadau lle gall Medr ddatgofrestru darparwr** - Mae adran 41(3) Deddf 2022 yn galluogi Medr i ddileu darparwr addysg drydyddol o gategori ar y gofrestr os ceir diffyg cydymffurfio mynych neu ddifrifol iawn ag amodau cofrestru parhaus. Er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid bodloni naill ai amod A neu B (gweler isod):

**Mae Amod A, sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio mynych**, wedi ei fodloni:

(a) os yw Medr wedi arfer ei bwerau cyfarwyddo yn flaenorol o dan Adran 39 Deddf 2022 (Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus) mewn perthynas â diffyg cydymffurfio ag un o'r amodau cofrestru parhaus sy'n gymwys i gategori cofrestru'r darparwr, **a**

(b) os yw'n ymddangos i Medr -

(i) bod yr amod cofrestru hwnnw wedi cael ei dorri unwaith eto, neu'n cael ei dorri'n fynych, neu

(ii) bod un gwahanol o amodau cofrestru parhaus y darparwr sy'n gymwys i gategori cofrestru'r darparwr yn cael ei dorri neu wedi cael ei dorri.

**Mae Amod B, sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfio difrifol iawn**, wedi'i fodloni os yw'n ymddangos i Medr:

(a) bod un o'r amodau cofrestru parhaus sy'n gymwys i gategori cofrestru'r darparwr yn cael ei dorri neu wedi cael ei dorri, **a**

(b) bod ei bwerau o dan Adran 39 Deddf 2022 (Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus) yn annigonol i ymdrin â'r tor amod (pa un a ydynt wedi cael eu harfer, yn cael eu harfer neu'n mynd i gael eu harfer mewn perthynas ag ef ai peidio).

**Cam 1: Hysbysiad cychwynnol a sylwadau'r darparwr**

5.10.2. Cyn dileu darparwr cofrestredig o gategori ar y gofrestr o dan Adran 41 Deddf 2022, rhaid i Medr hysbysu'r corff llywodraethu yn gyntaf. Bydd yr hysbysiad yn:

- Nodi rhesymau Medr dros fwriadu dileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr,
- nodi'r cyfnod pan all corff llywodraethu'r darparwr wneud sylwadau am y cynnig (heb fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad rhybuddio'n dod i law), a
- rhaid i Medr roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan gorff llywodraethu'r darparwr yn unol â'r hysbysiad wrth benderfynu a ddylid ei ddileu o gategori ar y gofrestr.

Bydd Medr yn rhannu copi o'r hysbysiad gyda Gweinidogion Cymru a bydd yn rhoi gwybodaeth gyson i swyddogion Llywodraeth Cymru am y broses ddileu.

**Cam 2: Hysbysu ac adolygiadau o benderfyniadau**

5.10.3. Ar ôl penderfynu a ddylid dileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr ai peidio, rhaid i Medr hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o'i benderfyniad. Pan fo'r penderfyniad

yn un i ddileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr, rhaid i'r hysbysiad nodi'r dyddiad pan fydd y dilead yn dod i rym. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi:

- y rhesymau dros y dilead,
- gwybodaeth am yr hawl i adolygiad, a hefyd
- y cyfnod pan ellir gwneud cais am adolygiad.

5.10.4. Gall corff llywodraethu darparwr wneud cais am adolygiad gan yr Adolygydd Penderfyniadau o benderfyniad Medr i'w ddileu o gategori ar y gofrestr. Person neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yw'r Adolygydd Penderfyniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau wedi'u nodi yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024 ac maent wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.7.5.

**Cam 3: Dilead yn dod i rym**

5.10.5. Os bydd corff llywodraethu'r darparwr yn hysbysu Medr nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad, bydd dilead o'r categori ar y gofrestr o dan Adran 41 Deddf 2022 yn dod i rym ar y dyddiad a nodir. Fodd bynnag, ni chaiff dilead ddod i rym ar unrhyw adeg

- pan ellid cyflwyno cais am adolygiad o benderfyniad neu
- pan fo adolygiad o benderfyniad neu benderfyniad gan Medr yn dilyn adolygiad o'r fath yn yr arfaeth.

Pan fydd y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hyn yn rhwystro dilead rhag digwydd ar y dyddiad a nodir, rhaid i Medr benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd y dilead yn dod i rym. Mae'r dyddiad hwnnw yn y dyfodol yn amodol ar yr hyn a benderfynwyd gan Medr yn dilyn unrhyw adolygiad o'r penderfyniad. Unwaith y mae'r darparwr wedi cael ei ddileu o'r categori ar y gofrestr, bydd y gofrestr a gyhoeddwyd yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dilead hwnnw.

5.10.6. *Cofrestru mewn categori arall ar ôl dilead* - Pan fydd Medr yn dileu darparwr cofrestredig o gategori ar y gofrestr o dan bwerau Adran 41(3) Deddf 2022, gall Medr gofrestru'r darparwr mewn categori arall heb gais:


- os yw corff llywodraethu'r darparwr yn cydsynio,
- os yw'n parhau i fod yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru,
- os yw'n darparu'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r categori arall neu os darperir y math hwnnw o addysg drydyddol ar ei ran,
- os yw'n bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol sy'n gymwys iddo mewn perthynas â'r cofrestriad yn y categori arall (gweler adran 27), ac os nad yw cofrestru yn y categori arall wedi'i wahardd gan ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau.

5.10.7. *Lleihau i'r eithaf yr effaith ar ddysgwyr* - Er mwyn diogelu dysgwyr, gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dileu darparwr o gategori ar y gofrestr. Bwriad hyn yw sicrhau bod arian cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu a gall gynnwys sicrhau bod Medr yn cadw rhai pwerau rheoleiddio penodol mewn perthynas â

darparwr sydd wedi'i ddatgofrestru, neu fod rhai ffrydiau cyllid penodol yn parhau i fod ar gael dros dro i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod y cwrs yn parhau ac yn cael ei gwblhau.

## Siart Lif: Datgofrestru o dan Adran 41(3) Deddf 2022

Gellir atal ymyriad ar unrhyw adeg os yw'r darparwr yn cydymffurfio.



## 5.11. Datgofrestru gorfodol o dan Adran 41(1) Deddf 2022

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Darparwyr Cofrestredig a, thrwy estyniad, Darparwyr Allanol sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran y Darparwyr Cofrestredig hynny.

5.11.1. Ceir amgylchiadau lle mae dyletswydd gyfreithiol ar Medr i ddileu darparwr o gategori ar y gofrestr. Mae Adran 41(1) Deddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddileu darparwr addysg drydyddol o gategori ar y gofrestr os yw Medr yn dod yn ymwybodol:

- nad yw'r darparwr yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru mwyach, neu
- nad yw'r darparwr yn darparu'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'r categori mwyach, neu na ddarperir y math hwnnw o addysg drydyddol ar ei ran mwyach.

Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, nodi amgylchiadau eraill lle mae'n rhaid dileu darparwr cofrestredig o un neu fwy o'r categorïau ar y gofrestr neu bob categori ar y gofrestr. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru os gwneir rheoliadau o'r fath.

**Cam 1: Hysbysiad rhybuddio a sylwadau'r darparwr**

5.11.2. Cyn dileu darparwr cofrestredig o gategori ar y gofrestr o dan Adran 41 Deddf 2022, rhaid i Medr roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu yn gyntaf. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn:

- Nodi rhesymau Medr dros fwriadu dileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr,
- nodi'r cyfnod pan all corff llywodraethu'r darparwr wneud sylwadau am y cynnig (heb fod yn llai na 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r hysbysiad rhybuddio'n dod i law), a
- rhaid i Medr roi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan gorff llywodraethu'r darparwr yn unol â'r hysbysiad wrth benderfynu a ddylid ei dynnu o gategori ar y gofrestr.

Bydd Medr yn rhannu copi o'r hysbysiad rhybuddio gyda Gweinidogion Cymru a bydd yn rhoi gwybodaeth gyson i swyddogion Llywodraeth Cymru am y broses ddileu.

**Cam 2: Hysbysu ac adolygiadau o benderfyniadau**

5.11.3. Ar ôl penderfynu a ddylid dileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr ai peidio, rhaid i Medr hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o'i benderfyniad. Pan fo'r penderfyniad yn un i ddileu'r darparwr o gategori ar y gofrestr, rhaid i'r hysbysiad nodi'r dyddiad y mae'r dilead yn dod i rym. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi:

- y rhesymau dros y dilead,
- gwybodaeth am yr hawl i adolygiad, a hefyd
- y cyfnod pan ellir gwneud cais am adolygu'r penderfyniad.

5.11.4. Gall corff llywodraethu darparwr wneud cais am adolygiad gan yr Adolygydd Penderfyniadau o benderfyniad Medr i'w ddileu o gategori ar y gofrestr. Person neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru yw'r Adolygydd Penderfyniadau. Mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau wedi'u nodi yn Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2024 ac maent wedi'u cynnwys ym mharagraff 5.7.5.

**Cam 3: Dilead yn dod i rym**


5.11.5. Os bydd corff llywodraethu'r darparwr yn hysbysu Medr nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad, bydd dilead o'r categori ar y gofrestr o dan Adran 41(1) Deddf 2022 yn dod i rym ar y dyddiad a nodir. Fodd bynnag, ni chaiff dilead ddod i rym ar unrhyw adeg

- pan ellid cyflwyno cais am adolygiad o benderfyniad neu
- pan fo adolygiad o benderfyniad neu benderfyniad gan Medr yn dilyn adolygiad o'r fath yn yr arfaeth.

Pan fydd y naill neu'r llall o'r amgylchiadau hyn yn rhwystro dilead rhag digwydd ar y dyddiad a nodir, rhaid i Medr benderfynu ar ddyddiad yn y dyfodol pan fydd y dilead yn dod i rym. Mae'r dyddiad hwnnw yn y dyfodol yn amodol ar yr hyn a benderfynwyd gan Medr yn dilyn unrhyw adolygiad o'r penderfyniad. Unwaith y mae'r darparwr wedi cael ei ddileu o'r categori ar y gofrestr, bydd y gofrestr a gyhoeddwyd yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r dilead hwnnw.

5.11.6. *Lleihau i'r eithaf yr effaith ar ddysgwyr* - Er mwyn diogelu dysgwyr, gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dileu darparwr o gategori ar y gofrestr. Bwriad hyn yw sicrhau bod arian cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu a gall gynnwys sicrhau bod Medr yn cadw rhai pwerau rheoleiddio penodol mewn perthynas â darparwr sydd wedi'i ddatgofrestru, neu fod rhai ffrydiau cyllid penodol yn parhau i fod ar gael dros dro i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod y cwrs yn parhau ac yn cael ei gwblhau.

## Siart Lif: Datgofrestru gorfodol o dan Adran 41(1) Deddf 2022



## 5.12. Hysbysu Gweinidogion Cymru o'r seiliau dros ymyrryd ganddynt

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Pob Sefydliad yn y sector AB yng Nghymru.

5.12.1. Yn ogystal ag ymyriadau perthnasol gan Medr, mae Adrannau 69 a 70 Deddf 2022 yn darparu ar gyfer ymyrryd gan Weinidogion Cymru i fynd i'r afael â materion cydymffurfio mewn darparwyr yn y sector addysg bellach. Mae'r seiliau dros ymyrryd gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

- mae materion y darparwr wedi cael neu yn cael eu camreoli gan ei gorff llywodraethu;
- mae corff llywodraethu'r darparwr wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd o dan unrhyw ddeddfiad;
- mae corff llywodraethu'r darparwr wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth arfer ei swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad;
- mae'r darparwr yn perfformio'n sylweddol waeth nag y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo berfformio o dan yr holl amgylchiadau, neu yn methu neu'n debygol o fethu â rhoi safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant.

Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Datganiad Ymyrryd ar wahân sy'n nodi eu pwerau ymyrryd mewn perthynas â darparwyr yn y sector addysg bellach.

5.12.2. Mae adran 71(1) Deddf 2022 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Medr i hysbysu Gweinidogion Cymru os ydym o'r farn bod unrhyw un, neu fwy, o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli mewn perthynas â darparwr yn y sector addysg bellach yng Nghymru. Efallai y bydd angen y cyngor hwn i Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r defnydd o bwerau ymyrryd Medr ei hun, neu fel dwysâd ohonynt.

## RHAN 2: Ein pwerau ymyrryd penodedig sy'n weddill o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 sydd yn gymwys i ddarparwyr cofrestredig (mewn grym tan 31 Gorffennaf 2027)

**SYLWER:** Ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig sydd wedi dod yn ddarparwyr cofrestredig, mae pwerau Deddf 2015 sydd yn **RHAN 2** yn parhau i fod mewn grym tan ddiwedd Blwyddyn Academaidd 2026/27 (31 Gorffennaf 2027) yn unig. O 1 Awst 2027 ymlaen, maent yn cael eu disodli gan bwerau ymyrryd sy'n gysylltiedig ag amodau cofrestru parhaus y Terfyn Ffioedd a Chyfle Cyfartal, fel y nodir yn **RHAN 1**.

Ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig nad ydynt wedi dod yn ddarparwyr cofrestredig, byddant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ystod lawn pwerau Deddf 2015, fel y nodir yn y datganiad a gyhoeddwyd eisoes o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

## 6. Ymyrryd mewn perthynas â therfynau ar ffioedd myfyrwyr

**Mae'r adran hon yn berthnasol i:** Sefydliadau Rheoleiddiedig (sefydliadau sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy)

### 6.1. Sail ar gyfer ymyrryd

6.1.1. Mae'r adran hon yn ymwneud ag ymyrryd mewn cysylltiad â therfynau ar ffioedd myfyrwyr trwy Gyfarwyddydau Cydymffurfio ac Ad-dalu. Mae'r ymyriadau hyn yn berthnasol pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag Adran 10(1) Deddf Addysg Uwch (Cymru) mewn perthynas â therfynau ar ffioedd myfyrwyr. Mae Adran 10(1) yn nodi bod yn rhaid i gorff llywodraethu sefydliad o fewn is-adran (2) sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys. Y sefydliadau sy'n dod o fewn is-adran (2) yw pob un sydd â chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy (pa un a yw'r cynllun hwnnw'n dal i fod mewn grym ai peidio).

**Nodyn**

**Ffioedd cwrs rheoleiddiedig** yw'r ffioedd a delir i sefydliad gan berson cymhwysol:

a. mewn cysylltiad â gwneud cwrs cymhwysol gan y person; a
b. mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n gymwys i'r cwrs hwnnw, pan fo'r flwyddyn honno'n dechrau ar adeg o fewn y cyfnod a bennir o dan adran 4 yng nghynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad (pa un a yw'r cynllun yn dal i fod mewn grym ai peidio).

**Y cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf** yw cynllun ffioedd a mynediad y sefydliad a gymeradwywyd yn fwyaf diweddar yn unol ag Adran 7 Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Mae cynlluniau ffioedd a mynediad 'mewn grym'** o'r dyddiad y'u cymeradwyir hyd at ddiwedd cyfnod y cynllun (neu hyd nes y caiff y gymeradwyaeth ei thynnu'n ôl gan Medr o dan Adran 38 neu 39 Deddf 2015).

**Y terfyn ffioedd cymwys** yw:

a. Mewn achos lle mae cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn nodi terfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn dan sylw, y terfyn hwnnw;
b. Mewn achos lle mae cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf y sefydliad yn darparu ar gyfer pennu terfyn ffioedd ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn dan sylw, y terfyn hwnnw fel y'i pennwyd yn unol â'r cynllun.

**Ffioedd uwchlaw'r terfyn** yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig, i'r graddau y mae'r ffioedd hynny yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (fel y'i meintiolir at ddibenion y ddyletswydd o dan adran 10(1) y mae'r corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â hi).

6.1.2. Mae corff llywodraethu sefydliad yn gyfrifol am sicrhau nad yw ffioedd uwchlaw'r terfyn yn cael eu codi. Byddwn yn monitro ac yn asesu materion posibl mewn perthynas â lefelau ffioedd, trwy fonitro data ffioedd a chwynion yn erbyn sefydliadau rheoleiddiedig[2], a thrwy ein prosesau sicrwydd sefydliadol, gan gynnwys archwilio lle y bo'n briodol. Bydd cyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydymffurfio o dan Adran 16(1) Deddf 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu pa bynnag wybodaeth, cynhorthwy a mynediad at gyfleusterau'r sefydliad ar ein cyfer yr ydym ni'n gofyn yn rhesymol iddynt eu darparu at ddibenion monitro cydymffurfedd â therfynau ffioedd. Byddwn yn ysgrifennu at Swyddog Atebol y sefydliad (Pennaeth y sefydliad fel arfer) i ofyn am unrhyw wybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau sy'n rhesymol ofynnol at ddibenion monitro cydymffurfedd â therfynau ffioedd, gydag amserlen resymol i'w chytuno gyda'r sefydliad. Os nad yw'r sefydliad yn cytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth, neu roi cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau, byddwn yn pennu amserlen yr ydym ni'n ei hystyried yn rhesymol.

6.1.3. Pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod corff llywodraethu wedi methu â darparu gwybodaeth o'r fath o fewn yr amserlen, o dan Adran 16(2), gallwn gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig at ddiben sicrhau bod yr wybodaeth, y cynhorthwy neu'r mynediad at gyfleusterau sy'n ofynnol yn cael ei d(d)arparu.

**Sicrhau Gwybodaeth, Cynhorthwy neu Fynediad**

Os ceir methiant i ddarparu gwybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau, byddwn yn ceisio datrys y sefyllfa trwy drafod gyda Swyddog Atebol y sefydliad (bydd copi o unrhyw ohebiaeth yn cael ei anfon at Gadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu). Os nad yw hynny'n datrys y mater, gallwn gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig er mwyn sicrhau'r wybodaeth, y cynhorthwy neu'r mynediad at gyfleusterau y mae ei (h)angen, trwy ddyroddi **Cyfarwyddyd i Orfodi Cydymffurfedd â'r Ddyletswydd i Gydweithredu** at Ddiben Monitro a Gwerthuso Cydymffurfedd ac Effeithiolrwydd o dan Adran 16(2) Deddf 2015 (a anfonir at Gadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu ac yr anfonir copi ohono at y Swyddog Atebol).

Nid yw Cyfarwyddyd i Orfodi Cydymffurfedd â'r Dyletswydd i Gydweithredu at Ddiben Monitro a Gwerthuso Cydymffurfedd ac Effeithiolrwydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn rhybuddio ac adolygu a nodir yn Adrannau 42 i 44 Deddf 2015. Unwaith y bydd Cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei ddyroddi, bydd yn ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â'r cais am wybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr (a fydd yn cael ei nodi yn y Cyfarwyddyd).

Os nad yw'n cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn, gallwn geisio gorfodaeth trwy waharddeb, gyda'r oruchwyliaeth farnwrol a ddarperir gan y llys yn sicrhau y creffir ar arfer y pwerau hyn.

[2] www.medr.cymru/cy/monitro-a-chydymffurfio/

6.1.4. Pan fydd sefydliad yn cael honiad sy'n cynnwys elfen mewn cysylltiad â chodi ffioedd uwchlaw'r terfyn, bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad roi gwybod i ni am fanylion y gŵyn ar y cyfle rhesymol cynharaf, hyd yn oed os yw'r honiad wedi cael ei gyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (OIA) neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA). Y rheswm dros hyn yw bod dyletswydd statudol arnom o dan Adran 15(1)(a) Deddf 2015 i fonitro cydymffurfedd sefydliadau â therfynau ffioedd. Hefyd, gallwn gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, fel y bo'n berthnasol, i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu fel sy'n ofynnol. Pan fyddwn ni'n cael honiad mewn cysylltiad â chodi ffioedd uwchlaw'r terfyn gan unigolyn (neu grŵp o unigolion), bydd disgwyl i'r unigolyn fod wedi mynd ar drywydd y mater trwy weithdrefnau'r sefydliad yn y lle cyntaf.

6.1.5. Pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag Adran 10(1) Deddf 2015 mewn perthynas â therfynau ar ffioedd myfyrwyr (h.y. mae wedi codi ffioedd uwchlaw'r rhai a nodir yn y cynllun ffioedd a mynediad perthnasol), mae Adran 11 Deddf 2015 yn nodi y gallwn weithredu i unioni'r sefyllfa trwy ddyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu i gyfarwyddo corff llywodraethu'r sefydliad i wneud y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol:

a. Cydymffurfio ag adran 10(1) Deddf Addysg Uwch (Cymru) er mwyn sicrhau nad yw'r ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys.

b. Ad-dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd i'r sefydliad.

6.1.6. Caiff Camau'r broses ymyrryd hon y darperir ar eu cyfer o dan Adrannau 42 i 44 Deddf 2015 a Rheoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[3] eu hamlinellu isod, ynghyd â'r rhwystrau a gwrthbwysau cysylltiedig.

## 6.2. Cyn Ymyrryd

6.2.1. Pan fydd mater mewn cysylltiad â chodi ffioedd uwchlaw'r terfyn wedi cael ei ddwyn i'n sylw, byddwn yn cysylltu â Swyddog Atebol y sefydliad (Pennaeth y sefydliad fel arfer) i drafod a gwirio'r mater ac i gael eglurhad ynghylch pa gamau gweithredu sydd eisoes wedi cael eu cymryd i gydymffurfio ac i ad-dalu unrhyw ffioedd uwchlaw'r terfyn (bydd copïau o'r holl ohebiaeth ar y Cam anffurfiol hwn yn cael eu hanfon at Glerc y corff llywodraethu a Chadeirydd y corff llywodraethu). Os nad yw'r sefydliad wedi cymryd camau gweithredu eto, bydd amserlen resymol i'r sefydliad gydymffurfio ac ad-dalu'r ffioedd uwchlaw'r terfyn a godwyd yn cael ei chytuno. Wrth gytuno ar yr amserlen hon, dylid nodi bod yn rhaid i ni daro cydbwysedd rhwng barn y sefydliad ynghylch rhesymolrwydd unrhyw amserlen ar y naill law a'r angen i ad-dalu myfyrwyr a'u noddwyr ar y cyfle rhesymol cynharaf ar y llaw arall.

6.2.2. Pan fo honiad mewn perthynas â chodi ffioedd uwchlaw'r terfyn wedi cael ei godi gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd cyn cael ei drosglwyddo i Medr, efallai y byddwn

[3] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

yn disgwyl am ganlyniad prosesau Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, cyn cychwyn ymyriad ffurfiol, er mwyn osgoi dyblygu camau gweithredu yn ddiangen. Er y byddwn yn ceisio osgoi dyblygu diangen, dylid nodi y gall yr amgylchiadau sy'n sbarduno ymyriad gan Medr (Ffioedd uwchlaw’r terfyn a nodir mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy) fod ychydig yn wahanol i'r rhai sy'n sbarduno ymwneud gan Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.  Byddwn yn cynnal cyswllt agos â Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd mewn amgylchiadau o'r fath ac efallai y byddwn yn dewis cychwyn ymyriad ffurfiol cyn y cwblheir prosesau'r cyrff hyn os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i fynd i'r afael â materion diffyg cydymffurfio difrifol. Lle mae’n fwriad gennym gynnal cyswllt â Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, byddem yn hysbysu Swyddog Atebol y sefydliad ar Gam cynnar pa un a ydym yn mynd i ddisgwyl am ganlyniad prosesau Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Rydym yn cadw'r hawl i gychwyn camau gweithredu ochr yn ochr â Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch neu'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, lle bo angen i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio difrifol.

6.2.3. Fel arfer, dim ond pan fo sefydliad wedi methu â chymryd camau gweithredu priodol i gydymffurfio ac ad-dalu ffioedd uwchlaw’r terfyn o fewn amserlen y cytunwyd arno y byddwn yn cychwyn ymyriad ffurfiol. Pan adnabyddir methiannau difrifol, megis achosion dro ar ôl tro, cyffredin neu systemig o godi ffioedd uwchlaw’r terfyn, neu lle ceir tystiolaeth o ddiystyriaeth amlwg i'r lefelau ffioedd a nodir mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad y cytunwyd arno, efallai y byddwn yn penderfynu bod angen cychwyn ymyriad ffurfiol yn gynnar.  Byddwn yn ymwybodol o amgylchiadau'r achos wrth ystyried ymyriad ffurfiol, gan gynnwys esboniad y sefydliad ynglŷn â pham y codwyd ffioedd uwchlaw’r terfyn (e.e. gwall gweinyddol); y tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn mynd i'r afael â'r mater yn wirfoddol os rhoddir rhagor o amser iddo; nifer y myfyrwyr yr effeithir arnynt; i ba raddau y codwyd ffioedd rhy uchel; ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

## 6.3. Y Broses Ymyrryd

6.3.1. Wrth ymyrryd, er mwyn eglurder, bydd pob cyfathrebiad gan Medr mewn perthynas ag ymyrryd yn nodi'n glir pa Gam a gyrhaeddwyd ac unrhyw is-elfen o'r broses ymyrryd y mae'n ymwneud â hi.

**Cam 1: Hysbysiad Rhybuddio**

6.3.2. Cyn i ni allu bwrw ymlaen â dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu i sefydliad, mae'n rhaid i ni roi hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw (a anfonir trwy law Cadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol). Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn:

a. Nodi'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu arfaethedig;
b. Nodi rhesymau Medr dros fwriadu ei roi;
c. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud sylwadau am y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu arfaethedig;
d. Nodi'r cyfnod o'r dyddiad dyroddi pan ellir gwneud sylwadau a'r ffordd y gellir eu gwneud.

<u>Rhwystrau a gwrthbwysau</u>

6.3.3. Ar ôl dyroddi'r hysbysiad rhybuddio, bydd gan gyrff llywodraethu hyd at 40 o ddiwrnodau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Medr, gyda'r holl sylwadau i'w hanfon at Brif Weithredwr Medr. Lle na cheir sylwadau, ni fydd unrhyw Gyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu'n cael ei ddyroddi tan ar ôl y cyfnod hwn o 40 o ddiwrnodau.

6.3.4. Pan geir sylwadau, bydd Medr yn ymgymryd ag adolygu'r rhain a phenderfynu a ddylid dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu o fewn 40 o ddiwrnodau i gael y sylwadau, ac eithrio lle mae angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn i ni allu ystyried sylwadau'n ddigonol. Mewn achosion o'r fath, gofynnir am yr wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y sylwadau a dylai gael ei chyflwyno gan y sefydliad o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais hwn gan Medr, er mwyn gwneud penderfyniad o fewn 60 o ddiwrnodau i gael y sylwadau gwreiddiol. Pan geir sylwadau, ni fydd unrhyw Gyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu'n cael ei ddyroddi tan ar ôl cwblhau'r broses hon.

6.3.5. Bydd penderfyniadau ynghylch dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu yn cael eu gwneud gan Medr. Pan wneir penderfyniad i beidio â dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu, byddwn yn anfon hysbysiad at y corff llywodraethu o fewn 14 o ddiwrnodau i'r penderfyniad hwnnw i'w hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros hyn.

**Cam 2: Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu**

6.3.6. Wrth ddyroddi'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu i sefydliad (a anfonir trwy law Cadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol), mae Adran 43 Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn darparu datganiad i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw. Bydd y datganiad yn:

a. Nodi ein rhesymau dros ddyroddi'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu;
b. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu, gan ddarparu gwybodaeth am y seiliau dros

adolygiad, y broses adolygu a manylion y sawl y dylid cyflwyno’r cais am adolygiad iddynt; ac

c. Cynnwys unrhyw wybodaeth ragnodedig arall a nodir o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn Rheoliad 6, h.y. dyddiad dyroddi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd; pryd y mae'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi; y seiliau yn Rheoliad 7 y gellir eu defnyddio i wneud cais am adolygiad; y weithdrefn yn Rheoliad 8 y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ei dilyn er mwyn ymgeisio am adolygiad; ac enw a chyfeiriad y Panel Adolygu y mae'n rhaid i gais am adolygiad gael ei gyflwyno iddo.

6.3.7. Gall y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu a ddyroddir nodi:

a. Y camau sydd i'w cymryd (neu beidio) gan y corff llywodraethu at ddibenion cydymffurfio ag adran 10(1);
b. Y modd y dylai, neu y gall, ffioedd uwchlaw’r terfyn gael eu had-dalu.

6.3.8. Gall y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu gael ei amrywio neu ei ddirymu trwy ddyroddi Cyfarwyddyd diweddarach.

6.3.9. Mae Rheoliad 4 o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[4] yn nodi bod hysbysiad neu Gyfarwyddyd a nodir yn Adran 41(1) Deddf 2015 i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi ar y diwrnod y ceir y cyntaf o'r digwyddiadau canlynol:

a. Mae'r corff llywodraethu’n hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu;
b. Mae'r terfyn amser i wneud cais am Adolygiad o'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi mynd heibio ac nid yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais am adolygiad;
c. Mae adolygiad o'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi cael ei gwblhau ac mae Medr wedi hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig bod y Cyfarwyddyd yn sefyll.

6.3.10. Unwaith y rhoddir Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu (gweler paragraff 6.3.6 uchod), rhaid inni ddarparu copi o'r Cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru ar unwaith. Er na fydd Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu yn cael ei rannu gyda Gweinidogion Cymru tan yr adeg y caiff ei roi, bydd angen i ni friffio swyddogion Llywodraeth Cymru (ac felly Weinidogion Cymru) ar adeg dyroddi’r Cyfarwyddyd gyntaf. Bydd y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu yn cael ei gyhoeddi ar wefan Medr www.medr.cymru hefyd a hynny o fewn saith niwrnod i’w roi a bydd yn aros ar y wefan nes bod y Cyfarwyddyd yn cael ei ddirymu gan Medr, neu fod Medr wedi ei argyhoeddi y cydymffurfiwyd â’r Cyfarwyddyd.

Rhwystrau a gwrthbwysau

6.3.11. Pan fyddwn yn dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu i sefydliad, mae Adran 44 Deddf 2015 yn darparu'r gallu i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw wneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd.

[4] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

6.3.12. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn nodi y gellir gwneud cais am adolygiad ar un neu ragor o'r seiliau canlynol:

a. Bod y corff llywodraethu yn cyflwyno ffactor sylweddol i'w ystyried nad yw wedi ei ddwyn i sylw Medr o'r blaen am reswm da;
b. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod Medr wedi diystyru ffactor sylweddol y dylai fod wedi ei ystyried;
c. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod y Cyfarwyddyd yn anghymesur yng ngoleuni'r holl ffeithiau perthnasol a gafodd eu hystyried gan Medr.

6.3.13. Mae Rheoliad 8 yn nodi bod yn rhaid gwneud ceisiadau am adolygiad o fewn 40 o ddiwrnodau i ddyroddi'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu, gyda cheisiadau'n cael eu gwneud yn ysgrifenedig fel a amlinellir yn y Cyfarwyddyd. Rhaid i'r cais am adolygiad nodi'r sail dros adolygu a chynnwys: copi o'r cyfarwyddyd sydd i'w adolygu; copi o'r datganiad a ddyroddwyd yn unol ag Adran 43 Deddf 2015 (gweler Paragraff 6.3.6); ); a gwybodaeth i ategu'r cais. Dylid nodi, o dan Reoliad 7(2), na ellir gwneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu pan fo corff llywodraethu wedi hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn y Cyfarwyddyd.

6.3.14. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal gan Berson, neu Banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru. Ar ôl cael cais am adolygiad, bydd y Person neu'r Panel a benodir gan Weinidogion Cymru yn rhoi amserlen ddisgwyliedig i'r corff llywodraethu a Medr ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Bydd y Panel adolygu yn rhoi i Medr fanylion y Cyfarwyddyd a adolygir, manylion y seiliau y mae'r cais am adolygiad wedi cael ei wneud arnynt a chopi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y corff llywodraethu i ategu'r cais am adolygiad. Gall y Panel adolygu wneud cais ysgrifenedig am ragor o wybodaeth gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr adolygiad. Bydd unrhyw gais am ragor o wybodaeth a wneir gan y Panel yn cael ei anfon at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Bydd yn ofynnol i Medr neu'r corff llywodraethu ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan y Panel o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyroddi'r cais er mwyn iddi gael ei hystyried. O dan Reoliad 9(8), bydd y Panel yn ystyried a yw'n briodol caniatáu sylwadau gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth bellach a gyflwynir iddo mewn ymateb i'w gais am wybodaeth o'r fath; ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol caniatáu sylwadau, bydd yn hysbysu Medr a'r corff llywodraethu yn unol â hynny. Bydd y Panel adolygu yn sicrhau bod Medr a'r corff llywodraethu ill dau yn cael yr holl wybodaeth a gyflwynwyd gan y parti arall.

6.3.15. Bydd y Panel adolygu yn ystyried yr wybodaeth y gofynnwyd amdani a gyflwynwyd gan Medr a'r corff llywodraethu wrth wneud ei benderfyniad. Bydd y Panel yn paratoi adroddiad ysgrifenedig a anfonir at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Byddwn yn ystyried adroddiad y Panel adolygu ac yn ailystyried y penderfyniad i ddyroddi'r Cyfarwyddyd. Byddwn wedyn yn hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig o fewn 40 o ddiwrnodau pa un a yw'r Cyfarwyddyd yn sefyll ai peidio, ac yn darparu rheswm dros y penderfyniad hwnnw. Os mai ein penderfyniad ni yw y dylai'r Cyfarwyddyd sefyll, bydd y penderfyniad hwnnw'n rhwymo corff llywodraethu'r sefydliad.

6.3.16. O dan Adran 12 Deddf 2015, gallwn ddyroddi canllawiau ynghylch y camau sydd i'w cymryd at ddiben cydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu. Cyn

cyhoeddi canllawiau o'r fath, byddwn yn ymgynghori â chyrff llywodraethu'r holl sefydliadau rheoleiddiedig, yn ogystal ag unrhyw sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau, y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn ein tyb ni. Rhaid i gorff llywodraethu y mae Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu wedi'i ddyroddi iddo ystyried canllawiau o'r fath.

**Cam 3: Cydymffurfio ac Ad-dalu**

6.3.17. Bydd disgwyl i gorff llywodraethu'r sefydliad ystyried y Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu ar y cyfle cynharaf posibl, er mwyn iddo allu cytuno ar fesurau i leihau'r lefel ffioedd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag Adran 10(1) Deddf 2015 (h.y. nad yw'r lefel ffioedd yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys). Bydd disgwyl i'r corff llywodraethu ysgrifennu at yr holl bobl yr effeithir arnynt o fewn 60 o ddiwrnodau i roi'r Cyfarwyddyd (gweler paragraff 6.3.6).

6.3.18. Mewn achosion lle nad yw'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu yn cael ei roi tan ar ôl i fyfyrwyr ddechrau eu cyrsiau, a bod ffioedd uwchlaw'r terfyn eisoes wedi cael eu codi, mae'n debygol y bydd angen ad-dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn. Bydd y mecanwaith ar gyfer ad-dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn yn dibynnu ar y cwestiwn a yw'r ffioedd yn cael eu talu trwy hunangyllido ynteu'n cael eu talu ar ran myfyrwyr trwy'r system cymorth i fyfyrwyr statudol.

6.3.19. Ar gyfer myfyrwyr sy'n hunangyllido, bydd angen ad-dalu ffioedd uwchlaw'r terfyn i'r myfyrwyr yn uniongyrchol neu wneud trefniant gyda'r myfyrwyr lle mae ffioedd yn y dyfodol yn cael eu gostwng er mwyn ystyried y gordaliad.

6.3.20. Ar gyfer myfyrwyr sy'n cael cymorth statudol i fyfyrwyr, gellir adfer gordaliad cymorth trwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Byddai disgwyl i'r sefydliad hysbysu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o'r gostyngiad gofynnol mewn ffioedd, gan felly ei gwneud yn bosibl i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr adfer cymorth ffioedd a ordalwyd yn awtomatig ran pob gweinyddiaeth yn y DU.

6.3.21. Oni bai bod Medr wedi cytuno fel arall, dylai ffioedd uwchlaw'r terfyn gael eu had-dalu, neu dylai trefniadau adfer gael eu rhoi ar waith trwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, o fewn 60 o ddiwrnodau i roi'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu (gweler paragraff 6.3.6).

6.3.22. Bydd disgwyl i'r corff llywodraethu ein hysbysu'n ysgrifenedig unwaith y bydd camau cydymffurfio ac ad-dalu wedi'u cwblhau. Ar ôl cwblhau'r camau cydymffurfio ac ad-dalu gan y sefydliad, byddwn yn ceisio ystyried yr wybodaeth gan y corff llywodraethu ynghylch cydymffurfio o fewn 14 diwrnod. Os gofynnir gan gorff llywodraethu'r sefydliad, byddwn yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu sy'n nodi a ydym wedi ein hargyhoeddi ei fod wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd (neu â gofyniad penodol yn y Cyfarwyddyd). Unwaith y byddwn wedi ein hargyhoeddi, byddwn yn tynnu'r Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu oddi ar ein gwefan ar y cyfle cynharaf a fan bellaf o fewn 7 niwrnod.

**Cam 4: Gorfodi**

6.3.23. Pan fyddwn yn dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu i gorff llywodraethu sefydliad, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd (yn amodol ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r Cyfarwyddyd - gweler Cam 2 uchod). Os bydd

corff llywodraethu yn methu â chydymffurfio'n foddhaol (ym marn Medr) â'r Cyfarwyddyd o fewn yr amserlen uchod, bydd y Cyfarwyddyd yn orfodadwy trwy waharddeb yn unol ag adran 45 Deddf 2015. Bydd ein penderfyniadau ni pa un a ddylid symud ymlaen i waharddeb yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos.

6.3.24. Os ceir methiant i gydymffurfio â therfynau ffioedd, gallwn ystyried gwrthod cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd o dan Adran 37 Deddf 2015, gyda hyn fel arfer yn cael ei ystyried pan geir methiant tymor hwy neu sylweddol i gydymffurfio. Yn achos yr amgylchiadau mwyaf eithafol, lle ceir methiant mynych i gydymffurfio â therfynau ffioedd neu fethiant i gydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu, gallwn ystyried tynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad presennol yn ôl o dan Adran 39 Deddf 2015. Caiff yr amgylchiadau lle byddwn yn ystyried dwysau ein hymyriad mewn cysylltiad â Therfynau ar Ffioedd Myfyrwyr i'r defnydd o'r pwerau hyn o dan Adrannau 37 neu 39 Deddf 2015 eu hamlinellu isod.

**Cam 5: Dwysau Ymyriad mewn cysylltiad â Therfynau ar Ffioedd Myfyrwyr**

6.3.25. Gallwn ystyried dwysau ymyriad mewn cysylltiad â Therfynau ar Ffioedd Myfyrwyr i Wrthod Cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad Newydd o dan Adran 37 Deddf 2015 lle mae sefydliad wedi methu â chydymffurfio â therfynau ffioedd. O ystyried arwyddocâd y dwysâd hwn, byddai fel arfer yn cael ei ystyried o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- **Achosion tymor hwy o fethiant i gydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr**. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, byddai methiant tymor hwy o'r fath i gydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr fel rheol ar ffurf parhad yr un mater dros gyfnod o amser. Nid oes angen i lefel y tâl gormodol a godir fod yn sylweddol o reidrwydd. Dylid nodi mai dim ond pan fo sefydliad wedi methu â dangos cynnydd gwirfoddol i fynd i'r afael â'r methiant a adnabuwyd o fewn cyfnod rhesymol o amser a bennwyd gan Medr y byddai'r ymyriad yn cael ei dwysau fel arfer.
- **Diffyg cydymffurfio sylweddol â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr** sy'n cyfiawnhau ymyriad mwy difrifol na dyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu, ond lle byddai tynnu Cynllun Ffi a Mynediad yn ôl yn ormodol. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, byddai'r dyfarniad o ran yr hyn sy'n gyfystyr â diffyg cydymffurfio sylweddol yn seiliedig ar effaith bosibl y methiant i gydymffurfio ar ystod o randdeiliaid a materion (e.e. myfyrwyr, staff, cynaliadwyedd sefydliadol, cyllid cyhoeddus ac effaith ehangach ar y sector addysg uwch ac ati). Gallai diffyg cydymffurfio sylweddol o'r fath gynnwys, er enghraifft, amgylchiadau lle codwyd ffioedd gormodol ar fyfyrwyr lluosog neu lle codwyd ffioedd uwchlaw’r terfyn sylweddol.


6.3.26. Yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol, yn lle hynny (neu yn ychwanegol at hynny) gallwn ystyried dwysau ymyriad mewn cysylltiad â Therfynau ar Ffioedd Myfyrwyr i Dynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad Cymeradwy yn Ôl o dan Adran 39 Deddf 2015. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y byddai’r camau gweithredu hyn yn cael eu cymryd, a hynny lle mae'n amlwg na fydd ymyriadau eraill yn effeithiol:

- **Lle mae sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr** a lle byddai angen tynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl i ddiogelu myfyrwyr, eu noddwyr a/neu randdeiliaid eraill rhag methiant sefydliadol mynych i gydymffurfio. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, mae'r amgylchiadau pan allai'r dull hwn gael ei ddefnyddio yn cynnwys, er enghraifft:
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd methiannau rheoli neu lywodraethu mynych yn atal cydymffurfedd hyd y gellir rhagweld.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd y sefydliad yn parhau i ddangos diystyriaeth agored i Derfynau Ffioedd Myfyrwyr.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Therfynau Ffioedd Myfyrwyr ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir dros gredu bod y sefydliad wedi cymryd camau gweithredu cysylltiedig sy'n dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.
- **Lle mae sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu** a lle byddai angen tynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl i ddiogelu myfyrwyr, eu noddwyr a/neu randdeiliaid eraill. Er y byddai dwysau'r ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, mae'r amgylchiadau lle gallai'r dull hwn gael ei ddefnyddio yn cynnwys, er enghraifft:
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd y sefydliad yn parhau i ddangos diystyriaeth agored i Derfynau Ffioedd Myfyrwyr.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu ac unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig trwy waharddeb.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu a bod gennym reswm clir dros gredu bod y sefydliad wedi cymryd camau cysylltiedig sy'n dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu a bod gennym reswm clir dros gredu bod y sefydliad wedi cymryd camau cysylltiedig sy'n dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.

6.3.27. Dim ond *in extremis* y byddai ymyriadau o dan Adrannau 37 a 39 Deddf 2015 yn cael eu cyflawni, lle mae gennym reswm clir dros gredu bod ymyriad trwy ddyroddi Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu yn annhebygol o fod yn ddigonol neu'n llwyddiannus, neu lle mae sefydliad eisoes wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu (Adran 39 yn unig). Caiff ymyriadau o dan

Adrannau 37 a 39 Deddf 2015 eu hamlinellu yn y Datganiad Ymyrryd hwn o adrannau 7.3 ac 8 yn y drefn honno.

## Siart Lif: Proses Ymyrryd Cydymffurfio ac Ad-dalu



## 7. Ymyrryd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Sefydliadau Rheoleiddiedig (sefydliadau sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy)

### 7.1. Sail ar gyfer Ymyrryd

7.1.1. Mae'r adran hon yn ymwneud ag ymyrryd gan Medr mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy trwy Gyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy. Mae'r ymyriad hwn yn berthnasol pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi:

- Y bu methiant gan y corff llywodraethu i gydymffurfio â gofyniad cyffredinol mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n ymwneud â'r sefydliad; ac ar adeg y methiant, bod y Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi ei gymeradwyo o dan Adran 7 Deddf 2015; neu
- Fod y corff llywodraethu yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy'r sefydliad.

**Nodyn**

Amlinellir **gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy** o dan Adran 6 y Ddeddf a Rheoliadau 5 a 6 o Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015. Mae'r gofynion hyn yn ymwneud â hybu cyfle cyfartal ac addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu:

a. Cymryd camau i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd).

b. Cymryd camau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (neu sicrhau bod camau o'r fath yn cael eu cymryd).

c. Darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr (neu sicrhau bod cymorth o'r fath yn cael ei ddarparu).

d. Rhoi gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell (neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhoi ar gael).

Rhaid i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd:

a. Gosod amcanion, gyda mesurau Cyraeddadwy, Amserol, Penodol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol (CAMPUS), sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

b. Nodi gwariant mewn perthynas â'r amcanion hynny (h.y. nodi'r gyfran o'r Ffioedd sydd i'w gwario ar yr amcanion).

**Nodyn (parhad)**

c. Nodi sut y mae'r corff llywodraethu yn mynd i fonitro: cydymffurfedd â darpariaethau'r Cynllun; a chynnydd o ran cyflawni'r amcanion yn y Cynllun sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

7.1.2. Mae corff llywodraethu sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion cyffredinol ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy. Byddwn yn monitro'r cydymffurfedd hwn (fel sy'n ofynnol yn Adran 15(1)(b) Deddf 2015) trwy ein prosesau cymeradwyo, monitro ac adrodd arferol. Darperir rhagor o wybodaeth am y prosesau monitro ac adrodd hyn yn y Canllawiau ynghylch Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

7.1.3. Dylid nodi y bydd cyrff llywodraethu sefydliadau rheoleiddiedig hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydymffurfio o dan Adran 16(1) Deddf 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu pa bynnag wybodaeth, cynhorthwy a mynediad at gyfleusterau'r sefydliad i Medr ag y gallwn yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol iddynt eu darparu at ddibenion monitro cydymffurfedd â gofynion cyffredinol ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy; gwerthuso effeithiolrwydd pob cynllun cymeradwy; a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau cymeradwy yn gyffredinol. Byddwn yn ysgrifennu at Swyddog Atebol y sefydliad (Pennaeth y sefydliad fel arfer) i ofyn am ba bynnag wybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau sy'n rhesymol ofynnol at ddibenion monitro cydymffurfedd â gofynion cyffredinol cynllun cymeradwy a/neu werthuso effeithiolrwydd cynllun, gydag amserlen resymol i gael ei chytuno gyda'r sefydliad. Os nad yw'r sefydliad yn cytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth, neu ddarparu cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau, byddwn yn pennu amserlen yr ydym ni'n ei hystyried yn rhesymol.

7.1.4. Pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod corff llywodraethu wedi methu â darparu gwybodaeth o'r fath, o dan Adran 16(2), gallwn gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol at ddibenion sicrhau y darperir yr wybodaeth, y cynhorthwy neu'r mynediad sy'n ofynnol.

**Sicrhau Gwybodaeth, Cynhorthwy neu Fynediad**

In the event of failure to provide information, assistance or access to Yn achos methiant i ddarparu gwybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau, bydd Medr yn ceisio datrys y sefyllfa trwy drafodaeth gyda Swyddog Atebol y sefydliad (bydd copi o unrhyw ohebiaeth yn cael ei anfon at Gadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu). Os nad yw hynny'n datrys y mater, gall Medr gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol er mwyn sicrhau'r wybodaeth, y cynhorthwy neu'r mynediad at gyfleusterau y mae ei (h)angen, trwy ddyroddi **Cyfarwyddyd i Orfodi Cydymffurfedd â'r Ddyletswydd i Gydweithredu** at Ddiben Monitro a Gwerthuso Cydymffurfedd ac

**Sicrhau Gwybodaeth, Cynhorthwy neu Fynediad (parhad)**

Effeithiolrwydd o dan Adran 16(2) Deddf 2015 (a anfonir at Gadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol).

Nid yw Cyfarwyddyd i Orfodi Cydymffurfedd â'r Dyletswydd i Gydweithredu at ddibenion monitro a gwerthuso cydymffurfedd ac effeithiolrwydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn rhybuddio ac adolygu a nodir yn Adrannau 42 i 44 Deddf 2015.

Unwaith y bydd Cyfarwyddyd o'r fath yn cael ei ddyroddi, bydd yn ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â'r cais am wybodaeth, cynhorthwy neu fynediad at gyfleusterau o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr (a fydd yn cael ei nodi yn y Cyfarwyddyd). Os na chydymffurfir â'r Cyfarwyddyd hwn, gallwn geisio gorfodaeth trwy waharddeb, gyda goruchwyliaeth farnwrol gan y llys yn sicrhau y creffir ar arfer y pwerau hyn gan Medr.

7.1.5. Pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol yn ei Gynllun Ffioedd a Mynediad, neu ei fod yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol yn ei Gynllun cymeradwy, mae Adran 13(1) Deddf 2015 yn nodi y gall Medr roi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy. Byddai'r Cyfarwyddyd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig i fynd i'r afael â'i fethiant i gydymffurfio neu atal y methiant hwnnw. Dylid nodi na allwn roi cyfarwyddyd o'r fath os ydym wedi ein hargyhoeddi bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad dan sylw.

**Nodyn**

**Fel arfer, bydd Medr yn ystyried bod corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio** lle mae'n amlwg y bu digon o ymdrech gan y sefydliad i ateb y gofyniad ond lle mae ffactorau y tu hwnt i reolaeth y sefydliad (e.e. ffactorau gwleidyddol neu economaidd allanol a materion sy'n deillio o gydweithredu gyda sefydliad arall) wedi arwain at ddiffyg cydymffurfio.

Er enghraifft, gall corff llywodraethu sefydliad ymrwymo yn ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy i ddarparu cymorth bwrsariaeth i nifer benodol o fyfyrwyr. Mae nifer wirioneddol y myfyrwyr sy'n cael bwrsariaeth yn is na'r nifer a nodir yn y Cynllun oherwydd bod nifer y myfyrwyr cymwys sy'n gwneud cais am y fwrsariaeth yn is na'r disgwyl, er bod cyhoeddusrwydd eang yn cael ei roi i'r fwrsariaeth. Yn y senario hwnnw, gallwn, ar ôl ystyried manylion y camau gweithredu yr oedd y sefydliad wedi'u cymryd i wneud darpar fyfyrwyr yn

**Nodyn (parhad)**

ymwybodol o argaeledd y fwrsariaeth, fod wedi ein hargyhoeddi bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad cyffredinol.

Pan ystyriwn efallai nad yw sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol y Cynllun Cymeradwy, trafodir hyn gyda Swyddog Atebol y sefydliad.

Bydd y sefydliad yn cael cyfle (o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr) i ddarparu gwybodaeth sy'n ategu dadl y sefydliad bod yr holl gamau rhesymol wedi cael eu cymryd (e.e. tystiolaeth o ffactorau y tu hwnt i reolaeth y sefydliad sydd wedi cyfrannu at fethu â chydymffurfio â Gofynion Cyffredinol y Cynllun Cymeradwy). Ar ôl adolygu'r wybodaeth hon, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth ychwanegol lle y bo hyn yn ofynnol.

Bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried gan Medr a bydd dyfarniad yn cael ei wneud, fel y rheoleiddiwr, ynghylch y cwestiwn a yw'r sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol.

7.1.6. Gallwn ymyrryd mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy tra bo'r Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy mewn grym neu ar adeg pan nad yw'r Cynllun bellach mewn grym, ar yr amod bod y Cynllun mewn grym ar adeg y methiant (neu'r tebygolrwydd o fethiant).

7.1.7. Caiff Camau'r broses ymyrryd hon, y darperir ar eu cyfer o dan Adrannau 42 i 44 Deddf 2015 a Rheoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[5], eu hamlinellu isod ynghyd â'r rhwystrau a gwrthbwysau cysylltiedig.

## 7.2. Cyn Ymyrryd

7.2.1. Pan fo mater mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofyniad cyffredinol mewn Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy wedi cael ei adnabod, byddwn yn cysylltu â Swyddog Atebol y sefydliad (Pennaeth y sefydliad fel arfer) i drafod y mater ac i gael eglurhad ynghylch pa gamau sydd eisoes wedi cael eu cymryd i gydymffurfio ac i ddeall unrhyw ffactorau a allai fod wedi effeithio ar gydymffurfedd (bydd copïau o’r holl ohebiaeth ar y Cam anffurfiol hwn yn cael eu hanfon at Glerc y corff llywodraethu a Chadeirydd y corff llywodraethu). Pan fo camau gweithredu i fynd i'r afael â’r materion cydymffurfio a adnabuwyd yn bosibl, naill ai o fewn oes y Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy neu’n ddiweddarach, gallwn ofyn i sefydliad gymryd y camau hynny y mae eu hangen i’w alluogi i gydymffurfio o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr. Wrth gytuno ar yr amserlen hon, dylid nodi bod yn rhaid i ni daro cydbwysedd rhwng barn y sefydliad ynghylch rhesymolrwydd unrhyw amserlen ar y naill law a buddiannau myfyrwyr a'u

[5] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

noddwyr a'r angen i fynd i'r afael â chydymffurfedd ar y cyfle rhesymol cynharaf ar y llaw arall.

7.2.2. Fel arfer, dim ond pan fydd sefydliad wedi methu â chymryd camau gweithredu priodol i gydymffurfio â gofynion cyffredinol ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy o fewn amserlen y cytunwyd arni y byddwn yn cychwyn ymyriad ffurfiol. Fodd bynnag, pan adnabyddir methiannau difrifol, megis ymdrech annigonol gan y sefydliad i ateb gofynion y Cynllun neu fethiant dro ar ôl tro i gydymffurfio, gallwn benderfynu bod angen cychwyn ymyriad ffurfiol ar Gam cynnar. Byddwn yn ymwybodol o amgylchiadau'r achos wrth ystyried ymyriad ffurfiol, gan gynnwys esboniad y sefydliad ynghylch pam ei fod wedi methu â chydymffurfio; y tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn mynd i'r afael â'r mater yn wirfoddol os rhoddir rhagor o amser iddo; ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill

## 7.3. Y Broses Ymyrryd: Cyfarwyddydau mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy

7.3.1. Wrth ymyrryd, er mwyn eglurder, bydd pob cyfathrebiad gan Medr mewn perthynas ag ymyrryd yn nodi'n glir pa Gam a gyrhaeddwyd ac unrhyw is-elfen o'r broses ymyrryd y mae'n ymwneud â hi.

**Cam 1: Hysbysiad Rhybuddio**

7.3.2. Pan fo sefydliad wedi methu â chydymffurfio â gofynion cyffredinol ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy a'i fod heb gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio, gallwn gychwyn y broses ymyrryd mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun cymeradwy. Cyn i ni fwrw ymlaen â dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i sefydliad, byddwn yn darparu Hysbysiad Rhybuddio i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw. Bydd yr Hysbysiad Rhybuddio yn:

a. Nodi'r Cyfarwyddyd arfaethedig mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol y Cynllun Cymeradwy;

b. Nodi rhesymau Medr dros fwriadu ei roi;

c. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud sylwadau am y Cyfarwyddyd arfaethedig;

d. Nodi'r cyfnod o'r dyddiad dyroddi pan ellir gwneud sylwadau a'r ffordd y gellir eu gwneud.

<u>Rhwystrau a gwrthbwysau</u>

7.3.3. Ar ôl dyroddi'r Hysbysiad Rhybuddio, bydd gan sefydliadau hyd at 40 o ddiwrnodau i gyflwyno sylwadau i ni, gyda'r holl sylwadau i'w hanfon at Brif Weithredwr Medr. Lle na cheir sylwadau, ni fydd unrhyw Gyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy yn cael ei ddyroddi tan ar ôl diwedd y cyfnod hwn o 40 o ddiwrnodau.

7.3.4. Pan geir sylwadau, byddwn yn ymgymryd ag adolygu'r rhain a phenderfynu a ddylid dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion

Cyffredinol Cynllun Cymeradwy o fewn 40 o ddiwrnodau i gael y sylwadau, ac eithrio lle mae angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn i ni allu ystyried sylwadau'n ddigonol. Mewn achosion o'r fath, gofynnir am yr wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y sylwadau a dylai gael ei chyflwyno gan y sefydliad o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais hwn gan Medr, er mwyn gwneud penderfyniad o fewn 60 o ddiwrnodau i gael y sylwadau gwreiddiol. Pan geir sylwadau, ni fydd unrhyw Gyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Chynllun Cymeradwy yn cael ei ddyroddi tan ar ôl cwblhau'r broses hon.

7.3.5. Bydd penderfyniadau ynghylch dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy yn cael eu gwneud gan Medr. Pan wneir penderfyniad i beidio â dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, byddwn yn anfon hysbysiad at y corff llywodraethu o fewn 14 o ddiwrnodau i'r penderfyniad hwnnw i'w hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros hyn.

**Cam 2: Y Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy**

7.3.6. Wrth ddyroddi'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i sefydliad (a anfonir trwy law Cadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol), mae Adran 43 Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddarparu datganiad i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw. Bydd y datganiad yn:

a. Nodi ein rhesymau dros ddyroddi'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy;

b. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gan ddarparu gwybodaeth am y seiliau dros adolygiad, y broses adolygu a manylion y sawl y dylid cyflwyno'r cais am adolygiad iddynt; ac

c. Cynnwys unrhyw wybodaeth ragnodedig arall a nodir o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn Rheoliad 6, h.y. dyddiad dyroddi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd; pryd y mae'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi; y seiliau yn Rheoliad 7 y gellir eu defnyddio i wneud cais am adolygiad; y weithdrefn yn Rheoliad 8 y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ei dilyn er mwyn ymgeisio am adolygiad; ac enw a chyfeiriad y Panel Adolygu y mae'n rhaid i gais am adolygiad gael ei gyflwyno iddo.

7.3.7. Gall y Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy a ddyroddir nodi'r camau sydd i'w cymryd (neu beidio) gan y corff llywodraethu at ddiben ymdrin â'r methiant i gydymffurfio neu atal y methiant hwnnw. Gellir amrywio neu ddirymu'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy trwy ddyroddi Cyfarwyddyd diweddarach.

7.3.8. Mae Rheoliad 4 o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[6] yn nodi bod hysbysiad neu Gyfarwyddyd a nodir yn Adran 41(1) Deddf 2015 i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi ar y diwrnod y ceir y cyntaf o'r digwyddiadau canlynol:

a. Mae'r corff llywodraethu'n hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn y Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy;

b. Mae'r terfyn amser i wneud cais am Adolygiad o'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi mynd heibio ac nid yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais am adolygiad;

c. Mae adolygiad o'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi cael ei gwblhau ac mae Medr wedi hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig bod y Cyfarwyddyd yn sefyll.

Rhwystrau a gwrthbwysau

7.3.9. Pan fyddwn yn dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i sefydliad, mae Adran 44 Deddf 2015 yn darparu'r gallu i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw wneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd.

7.3.10. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[7] yn nodi mai dim ond ar y seiliau canlynol y caniateir gwneud cais am adolygiad:

a. Bod y corff llywodraethu yn cyflwyno ffactor sylweddol i'w ystyried nad yw wedi ei ddwyn i sylw Medr o'r blaen am reswm da;

b. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod Medr wedi diystyru ffactor sylweddol y dylai fod wedi ei ystyried;

c. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod y Cyfarwyddyd yn anghymesur yng ngoleuni'r holl ffeithiau perthnasol a gafodd eu hystyried gan Medr.

Mae Rheoliad 8 o Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid gwneud ceisiadau am adolygiad o fewn 40 o ddiwrnodau i ddyroddi'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gyda cheisiadau'n cael eu gwneud yn ysgrifenedig fel a amlinellir yn y Cyfarwyddyd. Rhaid i'r cais am adolygiad nodi'r sail dros adolygu a chynnwys: copi o'r cyfarwyddyd sydd i'w adolygu; copi o'r datganiad a ddyroddwyd yn unol ag Adran 43 Deddf 2015; a gwybodaeth i ategu'r cais. Dylid nodi, o dan Reoliad 7(2), na ellir gwneud cais am adolygiad o'r Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy pan fo corff llywodraethu wedi hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn y Cyfarwyddyd.

[6] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015
[7] Fel Uchod

7.3.11. Dylai’r adolygiad gael ei gynnal gan Berson, neu Banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru. Ar ôl cael cais am adolygiad, bydd y Person neu'r Panel a benodir gan Weinidogion Cymru yn rhoi amserlen ddisgwyliedig i'r corff llywodraethu a Medr ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Bydd y Panel adolygu yn rhoi i Medr fanylion y Cyfarwyddyd a adolygir, manylion y seiliau y mae'r cais am adolygiad wedi cael ei wneud arnynt a chopi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y corff llywodraethu i ategu’r cais am adolygiad.

7.3.12. Gall y Panel adolygu wneud cais ysgrifenedig am ragor o wybodaeth gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr adolygiad. Bydd unrhyw gais am ragor o wybodaeth a wneir gan y Panel yn cael ei anfon at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Bydd yn ofynnol i Medr neu'r corff llywodraethu ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan y Panel o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyroddi’r cais er mwyn iddi gael ei hystyried. O dan Reoliad 9(8), bydd y Panel yn ystyried a yw'n briodol caniatáu sylwadau gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth bellach a gyflwynir iddo mewn ymateb i'w gais am wybodaeth o'r fath; ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol caniatáu sylwadau, bydd yn hysbysu Medr a'r corff llywodraethu yn unol â hynny. Bydd y Panel adolygu yn sicrhau bod Medr a'r corff llywodraethu ill dau yn cael yr holl wybodaeth a gyflwynwyd gan y parti arall.

7.3.13. Bydd y Panel adolygu yn ystyried yr wybodaeth y gofynnwyd amdani a gyflwynwyd gan Medr a'r corff llywodraethu wrth wneud ei benderfyniad. Bydd y Panel yn paratoi adroddiad ysgrifenedig a anfonir at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Byddwn yn ystyried adroddiad y Panel adolygu ac yn ailystyried ein penderfyniad i ddyroddi’r Cyfarwyddyd. Byddwn wedyn yn hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig o fewn 40 o ddiwrnodau pa un a yw'r Cyfarwyddyd yn sefyll ai peidio, ac yn darparu rheswm dros y penderfyniad hwnnw. Os mai ein penderfyniad ni yw y dylai'r Cyfarwyddyd sefyll, bydd y penderfyniad hwnnw'n rhwymo corff llywodraethu'r sefydliad.

**Cam 3: Cydymffurfio**

7.3.14. Bydd disgwyl i gorff llywodraethu'r sefydliad ystyried y Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ar y cyfle cynharaf posibl, er mwyn iddo allu cytuno ar fesurau i gydymffurfio â gofynion ei Gynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy. Bydd disgwyl i'r corff llywodraethu gychwyn y camau gweithredu angenrheidiol o fewn 60 o ddiwrnodau i roi’r Cyfarwyddyd (gweler paragraff 7.3.8).

7.3.15. Bydd disgwyl i'r corff llywodraethu ein hysbysu'n ysgrifenedig bod y camau gweithredu yn y Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy wedi'u cwblhau. Ar ôl cwblhau'r camau gweithredu yn y Cyfarwyddyd gan y sefydliad, byddwn yn ceisio ystyried yr wybodaeth gan y corff llywodraethu ynghylch cydymffurfio o fewn 14 diwrnod. Os gofynnir gan gorff llywodraethu'r sefydliad, byddwn yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethu sy’n nodi a ydym wedi ein hargyhoeddi ei fod wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd (neu â gofyniad penodol yn y Cyfarwyddyd).

**Cam 4: Gorfodi**

7.3.16. Pan fyddwn yn dyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i gorff llywodraethu sefydliad, rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd (yn amodol ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r Cyfarwyddyd - gweler Cam 2 uchod). Os bydd corff llywodraethu yn methu â chydymffurfio'n foddhaol (ym marn Medr) â'r Cyfarwyddyd o fewn yr amserlen uchod, bydd y Cyfarwyddyd yn orfodadwy trwy waharddeb yn unol ag adran 45 Deddf 2015. Bydd ein penderfyniadau ni pa un a ddylid symud ymlaen i waharddeb yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos.

7.3.17. Fel modd i orfodi cydymffurfedd â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gallwn ystyried gwrthod cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd o dan Adran 37 Deddf 2015 fel dewis arall yn lle gwaharddeb. Caiff yr amgylchiadau, lle byddwn yn ystyried defnyddio'r pwerau o dan Adran 37 Deddf 2015, yn hytrach na gwaharddeb, eu hamlinellu isod.

7.3.18. Os ceir methiant i gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gallwn ystyried gwrthod cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd o dan Adran 37 Deddf 2015, gyda hyn fel arfer yn cael ei ystyried pan geir methiant tymor hwy neu sylweddol i gydymffurfio. Gallwn hefyd ystyried gwrthod cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad newydd dan Adran 37 Deddf 2015 yn achos methiant i gydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy. Yn achos yr amgylchiadau mwyaf eithafol, lle ceir methiant mynych i gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy neu lle ceir methiant i gydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gallwn ystyried tynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad presennol yn ôl o dan Adran 39 Deddf 2015. Caiff yr amgylchiadau lle byddwn yn ystyried dwysau ein hymyriad mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i'r defnydd o'r pwerau hyn o dan Adran 37 neu 39 Deddf 2015 eu hamlinellu isod.

**Cam 5: Dwysau Ymyriad mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy**

7.3.19. Gallwn ystyried dwysau ymyriad mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, i Wrthod Cymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad Newydd o dan Adran 37 Deddf 2015, lle y bo'n briodol. O ystyried arwyddocâd y dwysâd hwn, byddai fel arfer yn cael ei ystyried o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- **Achosion tymor hwy o Fethiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy**. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, byddai methiant tymor hwy o'r fath i gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy fel rheol ar ffurf parhad yr un mater dros gyfnod o amser. Dylid nodi mai dim ond pan fo sefydliad wedi methu â dangos cynnydd gwirfoddol i fynd i'r afael â'r methiant a adnabuwyd o fewn cyfnod rhesymol o amser a bennwyd gan Medr y byddai'r ymyriad yn cael ei ddwysau fel arfer.
- **Achosion sylweddol o Fethiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy** sy'n cyfiawnhau ymyriad mwy difrifol na dyroddi

Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, ond lle byddai tynnu Cynllun Ffi a Mynediad yn ôl yn ormodol. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, byddai'r dyfarniad o ran yr hyn sy'n gyfystyr â methiant sylweddol yn seiliedig ar effaith bosibl y methiant i gydymffurfio ar ystod o randdeiliaid a materion (e.e. myfyrwyr, staff, cynaliadwyedd sefydliadol, cyllid cyhoeddus ac effaith ehangach ar y sector addysg uwch ac ati). Gallai diffyg cydymffurfio sylweddol o'r fath gynnwys, er enghraifft, amgylchiadau lle ceir methiant i gydymffurfio â mwy nag un Gofyniad Cyffredinol mewn Cynllun Cymeradwy neu lle mae maint unrhyw fethiant i gydymffurfio'n sylweddol.

7.3.20. Gallwn orfodi cydymffurfedd â Chyfarwyddyd mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy trwy ddyroddi Hysbysiad o Wrthodiad i Gymeradwyo Cynllun Ffioedd a Mynediad Newydd (o dan Adran 37 Deddf 2015) fel dewis arall yn lle gorfodaeth trwy waharddeb. Byddai'r dull gorfodi arall hwn fel arfer yn cael ei ddefnyddio o dan y mathau o amgylchiadau a amlinellir isod yn unig:

- **Pan nad yw sefydliad wedi cydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy a bod rheswm clir dros gredu na fydd yn cydymffurfio â gwaharddeb** fel bod yn rhaid rhoi pwysau ychwanegol er mwyn gorfodi cydymffurfedd. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, gallai'r gred na fydd sefydliad yn cydymffurfio â gwaharddeb fod yn seiliedig ar y canlynol, er enghraifft:
    - Diystyriaeth agored gan gorff llywodraethu'r sefydliad i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy (*e.e.* gwrthod trafod; methiant mynych i ddod i benderfyniad ar gydymffurfedd; neu benderfyniad i beidio â chydymffurfio);
    - Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â gwaharddeb yn flaenorol; neu
    - Anfodlonrwydd, neu anallu, mynych y corff llywodraethu i ymgysylltu â Medr.

7.3.21. Yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol, yn lle hynny (neu yn ychwanegol at hynny) gallwn ystyried dwysau ymyriad mewn cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy i Dynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad Cymeradwy yn Ôl o dan Adran 39 Deddf 2015. Dim ond yn yr amgylchiadau eithafol canlynol y byddai'r camau gweithredu hyn yn cael eu cymryd, a hynny lle mae'n amlwg na fydd ymyriadau eraill yn effeithiol:

- **Lle mae sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy** a lle byddai angen tynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl i ddiogelu myfyrwyr, eu noddwyr a/neu randdeiliaid eraill rhag methiant sefydliadol mynych i gydymffurfio. Er y byddai dwysâd mewn ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, mae'r amgylchiadau pan allai'r dull hwn gael ei ddefnyddio yn cynnwys, er enghraifft:
    - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir

dros gredu y bydd methiannau rheoli neu lywodraethu mynych yn atal cydymffurfedd â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy hyd y gellir rhagweld.


  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd y sefydliad yn parhau i ddangos diystyriaeth agored i Ofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ar sawl achlysur (gan gynnwys ailadrodd neu barhau â'r un mater) dros gyfnod o amser a bod gennym reswm clir dros gredu bod y sefydliad wedi cymryd camau gweithredu cysylltiedig sy'n dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.

- **Lle mae sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy**, a lle byddai angen tynnu Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl i ddiogelu myfyrwyr, eu noddwyr a/neu randdeiliaid eraill. Er y byddai dwysau’r ymyriad yn cael ei benderfynu fesul achos unigol, mae'r amgylchiadau lle gallai’r dull hwn gael ei ddefnyddio yn cynnwys, er enghraifft:
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd y sefydliad yn parhau i ddangos diystyriaeth agored i Ofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy ac unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig trwy waharddeb.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy a bod gennym reswm clir dros gredu y bydd y sefydliad yn parhau i wrthod ymgysylltu â ni oherwydd methiannau rheoli neu lywodraethu difrifol.
  - Lle mae'r sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy a bod gennym reswm clir dros gredu bod y sefydliad wedi cymryd camau cysylltiedig sy'n dwyllodrus neu'n anghyfreithlon.

7.3.22. Dim ond *in extremis* y byddai ymyriadau o dan Adrannau 37 a 39 Deddf 2015 yn cael eu cyflawni, lle mae gennym reswm clir dros gredu bod ymyriad trwy ddyroddi Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy yn annhebygol o fod yn ddigonol neu'n llwyddiannus, lle mae’n annhebygol y cydymffurfir â gwaharddeb (ymyriad dan Adran 37 Deddf 2015 yn unig) neu lle mae sefydliad eisoes wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy. Caiff yr ymyriadau hyn eu hamlinellu yn y Datganiad Ymyrryd hwn o adrannau 7.3 ac 8 yn y drefn honno.

## Siart Lif: Y Broses Ymyrryd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy

Gellir atal ymyriad ar unrhyw adeg os yw'r sefydliad yn cydymffurfio.



## 8. Tynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl o dan Adran 39 Deddf 2015

**Mae'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:** Sefydliadau Rheoleiddiedig (sefydliadau sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy)

### 8.1. Sail ar gyfer ymyrryd

8.1.1. Mae'r adran hon yn ymwneud â'n pŵer i ymyrryd in extremis trwy dynnu ein cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad presennol yn ôl o dan Adran 39 Deddf 2015. Bydd y pŵer ymyrryd hwn yn cael ei ddefnyddio dim ond pan fyddwn wedi ein hargyhoeddi bod y tor amod rheoleiddiol mor sylweddol neu ddifrifol fel na ellir ymdrin ag ef trwy ddulliau eraill. Caiff y sail ar gyfer ymyrryd ei hamlinellu isod, gyda'r ymyriad yn golygu dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl.

**Nodyn**

**Wrth gychwyn camau i dynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad sefydliad yn ôl, bydd Medr yn ymegnïo i warchod buddiannau'r myfyrwyr yn y sefydliad.** Gallwn weithio gyda Llywodraeth Cymru i roi mesurau ar waith trwy reoliadau cymorth i fyfyrwyr (o dan Adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998) i wneud darpariaeth i gymorth i fyfyrwyr barhau i'r myfyrwyr hynny sy'n dal i fod yn y sefydliad. Gallwn hefyd geisio diogelu myfyrwyr trwy, er enghraifft, weithio mewn partneriaeth gyda sefydliad trydydd parti i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cwblhau eu cyrsiau o dan drefniadau newydd.

8.1.2. Gallwn dynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl os ydym yn wedi ein hargyhoeddi bod un o'r amodau ar gyfer ymyrryd a nodir yn Adran 39(2) Deddf 2015 wedi'i fodloni. Mae'r amodau hyn, sy'n ymwneud â gofynion unigol o dan Ddeddf 2015 a meysydd ymyrryd, fel a ganlyn:

- Bod corff llywodraethu'r sefydliad
  - **Wedi methu'n fynych â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 10(1) Deddf 2015** i sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (h.y. nad yw sefydliadau'n codi ffioedd uwchlaw'r terfyn); a/neu
  - **Wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu**.
- Bod corff llywodraethu'r sefydliad:
  - **Wedi methu'n fynych â chydymffurfio â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy'r sefydliad** (gweler Adran 6 Deddf 2015).
  - **Wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy** (gweler Adran 13 Deddf 2015).

> **Nodyn**
>
> At ddibenion yr ymyriad hwn byddwn yn gwneud dyfarniad pa un a yw corff llywodraethu wedi **methu’n fynych â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 10(1) Deddf 2015 neu â Gofynion Cyffredinol cynllun Cymeradwy** yn seiliedig ar hyd, ailadrodd a mynychder mater neu faterion cydymffurfio (gall methu’n fynych gynnwys nifer o faterion ar wahân neu ailadrodd neu barhau â’r un mater). Gall y dyfarniad hwn hefyd gael ei oleuo gan y safbwynt a fabwysiedir gan gorff llywodraethu'r sefydliad mewn perthynas â chydymffurfio (e.e. gwrthod ymgysylltu â Medr neu gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol).

8.1.3. Pan fo corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â Chyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu neu â Chyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gall hyn arwain at gamau gorfodi trwy waharddeb (gweler adrannau cynharach o'r Datganiad Ymyrryd). Fodd bynnag, fel a nodir uchod, mewn rhai amgylchiadau gallwn ddwysau’r broses ymyrraeth trwy ddyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl.

8.1.4. Yn yr un modd, gallwn gyhoeddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl pan fo corff llywodraethu sefydliad yn methu’n fynych â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 10(1) Deddf 2015 i sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw’r terfyn ffioedd cymwys neu â gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy’r y sefydliad (gweler Adran 6 Deddf 2015).

8.1.5. O ystyried yr effaith fawr debygol ar sefydliad o ganlyniad i dynnu cymeradwyaeth i’w Gynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl, ni fydd dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei wneud ar chwarae bach ac fel arfer ni fydd ond yn cael ei ddefnyddio fel mesur sy’n ddewis olaf a hynny pan fo ymyriadau eraill wedi methu, neu mewn amgylchiadau lle mae mater cydymffurfio mor ddifrifol fel bod yn rhaid cymryd camau pendant (e.e. i ddiogelu myfyrwyr, arian cyhoeddus neu enw da'r sector Addysg Uwch ehangach).

8.1.6. Caiff Camau'r broses ymyrryd hon y darperir ar eu cyfer o dan adrannau 42 i 44 Deddf 2015 a Rheoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015, eu hamlinellu isod ynghyd â'r rhwystrau a gwrthbwysau cysylltiedig.

> **Nodyn**
>
> Er y bydd corff llywodraethu sefydliad fel arfer yn cael ei hysbysu cyn cyhoeddi Hysbysiad Rhybuddio mewn perthynas â Thynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl o dan Adran 39 y Ddeddf, **efallai na fydd bob amser yn briodol ymgysylltu â'r sefydliad trwy ddull partneriaeth**. Er enghraifft, gall yr amgylchiadau lle mae Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei ddyroddi fod yn ddigon difrifol (e.e. materion difrifol o ran diffyg cydymffurfio â'r Cod sy'n effeithio ar hyfywedd ariannol) fel nad yw unrhyw ymgysylltiad anffurfiol yn briodol mwyach cyn cychwyn yr ymyriad.

## 8.2. Cyn Ymyrryd

8.2.1. Pan fo corff llywodraethu sefydliad wedi methu'n fynych â chydymffurfio ag unrhyw un o'r canlynol: y ddyletswydd yn Adran 10(1) Deddf 2015 i sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn mynd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys; Cyfarwyddyd Cydymffurfio ac Ad-dalu; gofynion cyffredinol Cynllun Ffioedd a Mynediad cymeradwy'r sefydliad; Cyfarwyddyd mewn Cysylltiad â Methiant i Gydymffurfio â Gofynion Cyffredinol Cynllun Cymeradwy, gallwn, gan ddibynnu ar natur frys y sefyllfa ym marn Medr, gysylltu â'r corff llywodraethu i drafod y mater. Pan nad yw'r corff llywodraethu'n gallu neu'n fodlon cydymffurfio, o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr, bydd y broses sy'n arwain at ddyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei chychwyn. Byddwn yn ymwybodol o amgylchiadau'r achos wrth ystyried yr ymyriad difrifol hwn, gan gynnwys esboniad y sefydliad ynghylch pam ei fod wedi methu â chydymffurfio; y tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn mynd i'r afael â'r mater(ion) yn wirfoddol os rhoddir rhagor o amser iddo; buddiannau myfyrwyr a sut y gellir gwarchod y rhain; ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Lle mae angen gweithredu ar frys (ym marn Medr), efallai na fydd gennym amser i ymgysylltu â'r corff llywodraethu cyn cychwyn y broses ymyrryd.

8.2.2. Pan nad yw'r corff llywodraethu'n gallu neu'n fodlon cydymffurfio, o fewn amserlen resymol a bennir gan Medr, bydd y broses sy'n arwain at ddyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei chychwyn. Byddwn yn ymwybodol o amgylchiadau'r achos wrth ystyried yr ymyriad difrifol hwn, gan gynnwys esboniad y sefydliad ynghylch pam fod ganddo fethiannau mor ddifrifol; y tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn mynd i'r afael â'r mater(ion) yn wirfoddol os rhoddir rhagor o amser iddo; buddiannau myfyrwyr a sut y gellir gwarchod y rhain; ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. Lle mae angen gweithredu ar frys (ym marn Medr), efallai na fydd gennym amser i ymgysylltu â'r corff llywodraethu cyn cychwyn y broses ymyrryd.

## 8.3. Y Broses Ymyrryd

**Cam 1: Hysbysiad Rhybuddio**

8.3.1. Pan fo corff llywodraethu sefydliad wedi methu'n fynych â mynd i'r afael â'r materion diffyg cydymffurfio uchod mewn perthynas â ffioedd uwchlaw'r terfyn neu ofynion cyffredinol y Cynllun Ffioedd a Mynediad neu fod ganddo faterion difrifol o ran ansawdd annigonol neu faterion difrifol mewn perthynas â chydymffurfio â'r Cod, gallwn gychwyn y broses ymyrryd mewn cysylltiad â thynnu cymeradwyaeth i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn ôl.

8.3.2. Pan fyddwn yn ystyried nad yw'r materion mor daer fel bod angen gweithredu ar unwaith, a ninnau wedi ceisio ymgysylltu ymhellach â chorff llywodraethu'r sefydliad cyn cychwyn yr ymyriad hwn, byddwn yn cychwyn yr ymyriad ar ôl cyfnod rhesymol (amserlen i'w phennu gan Medr).

8.3.3. Cyn i Medr fwrw ymlaen â dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl i sefydliad, byddwn yn darparu Hysbysiad Rhybuddio i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw (anfonir trwy law Cadeirydd y corff llywodraethu a'r Clerc i'r corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol). Bydd yr Hysbysiad Rhybuddio yn:

a. Nodi'r Hysbysiad arfaethedig o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl;

b. Nodi ein rhesymau dros fwriadu ei roi;

c. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud sylwadau am yr Hysbysiad arfaethedig;

d. Nodi'r cyfnod o'r dyddiad dyroddi pan ellir gwneud sylwadau a'r ffordd y gellir eu gwneud.

Rhwystrau a gwrthbwysau

8.3.4. Ar ôl dyroddi'r Hysbysiad Rhybuddio, bydd gan sefydliadau hyd at 40 o ddiwrnodau i gyflwyno sylwadau i Medr, gyda'r holl sylwadau i'w hanfon at Brif Weithredwr Medr. Ni fydd unrhyw Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei ddyroddi tan ar ôl diwedd y cyfnod hwn o 40 o ddiwrnodau.

8.3.5. Pan geir sylwadau, byddwn yn ymgymryd ag adolygu'r rhain a phenderfynu a ddylid dyroddi Hysbysiad o fewn 40 o ddiwrnodau i gael y sylwadau, ac eithrio lle mae angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol er mwyn i ni allu ystyried sylwadau'n ddigonol. Mewn achosion o'r fath, gofynnir am yr wybodaeth ychwanegol o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y sylwadau a dylai gael ei chyflwyno gan y sefydliad o fewn 28 o ddiwrnodau i'r cais hwn gan Medr, er mwyn gwneud penderfyniad o fewn 60 o ddiwrnodau i gael y sylwadau gwreiddiol. Pan geir sylwadau, ni fydd unrhyw Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei ddyroddi tan ar ôl cwblhau'r broses hon.

8.3.6. Bydd penderfyniadau ynghylch dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael eu gwneud gan Brif Weithredwr Medr. Pan wneir penderfyniad i beidio â dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl, bydd Medr yn anfon hysbysiad at y corff llywodraethu o fewn 14 o ddiwrnodau i'w hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau dros hyn.

**Cam 2: Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl**

8.3.7. Wrth ddyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl i sefydliad (a anfonir trwy law Cadeirydd y corff llywodraethu a Chlerc y corff llywodraethu gyda chopi'n cael ei anfon at y Swyddog Atebol), mae Adran 43 Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Medr ddarparu datganiad i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw. Bydd y datganiad yn:

a. Nodi rhesymau Medr dros ddyroddi'r Hysbysiad;

b. Hysbysu'r corff llywodraethu y gall wneud cais am adolygiad o'r Hysbysiad; a

c. Cynnwys unrhyw wybodaeth ragnodedig arall a nodir o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn Rheoliad 6, h.y. dyddiad dyroddi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd; pryd y mae'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi; y

seiliau yn Rheoliad 7 y gellir eu defnyddio i wneud cais am adolygiad; y weithdrefn yn Rheoliad 8 y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ei dilyn er mwyn ymgeisio am adolygiad; ac enw a chyfeiriad y Panel Adolygu y mae'n rhaid i gais am adolygiad gael ei gyflwyno iddo.

8.3.8. Mae Rheoliad 4 o dan Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015[8] yn nodi bod hysbysiad neu Gyfarwyddyd a nodir yn Adran 41(1) Deddf 2015 i'w drin fel pe bai wedi cael ei roi ar y diwrnod y ceir y cyntaf o'r digwyddiadau canlynol:

a. Mae'r corff llywodraethu'n hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn yr Hysbysiad;

b. Mae'r terfyn amser i wneud cais am Adolygiad o'r Hysbysiad o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi mynd heibio ac nid yw'r corff llywodraethu wedi gwneud cais am adolygiad;

c. Mae adolygiad o'r Hysbysiad o dan Adran 44 Deddf 2015 wedi cael ei gwblhau ac mae Medr wedi hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig bod yr Hysbysiad yn sefyll.

Unwaith y bydd wedi cael ei roi, bydd yr Hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Medr o fewn saith niwrnod. Bydd yr Hysbysiad yn aros ar wefan Medr tan y dyddiad y byddai'r Cynllun Ffioedd a Mynediad perthnasol wedi dod i ben, oni bai am yr Hysbysiad.

8.3.9. Er na fydd yr Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl yn cael ei rannu gyda Gweinidogion Cymru tan yr adeg y caiff ei roi, bydd angen i ni friffio i swyddogion Llywodraeth Cymru (ac felly Weinidogion Cymru) ar adeg dyroddi'r Hysbysiad gyntaf. Bydd yr Hysbysiad a ddyroddir yn cadarnhau y bydd Medr yn tynnu'r gymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad presennol y sefydliad yn ôl.

Rhwystrau a gwrthbwysau

8.3.10. Os yw Medr yn dyroddi Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad yn Ôl i sefydliad, mae Adran 44 Deddf 2015 yn darparu'r gallu i gorff llywodraethu'r sefydliad hwnnw wneud cais am adolygiad o'r Hysbysiad. Dim ond ar y seiliau canlynol y gellir gwneud cais am adolygiad:

a. Bod y corff llywodraethu yn cyflwyno ffactor sylweddol i'w ystyried nad yw wedi ei ddwyn i sylw Medr o'r blaen am reswm da;

b. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod Medr wedi diystyru ffactor sylweddol y dylai fod wedi ei ystyried;

c. Bod y corff llywodraethu yn ystyried bod yr hysbysiad yn anghymesur yng ngoleuni'r holl ffeithiau perthnasol a gafodd eu hystyried gan Medr.

[8] Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015

Mae Rheoliad 8 o Reoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid gwneud ceisiadau am adolygiad o fewn 40 o ddiwrnodau i ddyroddi’r Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl, gyda cheisiadau’n cael eu gwneud yn ysgrifenedig fel a amlinellir yn yr Hysbysiad. Rhaid i'r cais am adolygiad nodi’r sail dros adolygu a chynnwys: copi o'r hysbysiad sydd i'w adolygu; copi o'r datganiad a ddyroddwyd yn unol ag Adran 43 Deddf 2015; a gwybodaeth i ategu’r cais. Dylid nodi, o dan Reoliad 7(2), na ellir gwneud cais am adolygiad o'r Hysbysiad i Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl pan fo corff llywodraethu wedi hysbysu Medr yn ysgrifenedig ei fod yn derbyn yr Hysbysiad.

8.3.11. Dylai’r adolygiad gael ei gynnal gan berson, neu Banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru. Ar ôl cael cais am adolygiad, bydd y Person neu'r Panel a benodir gan Weinidogion Cymru yn rhoi amserlen ddisgwyliedig i'r corff llywodraethu a Medr ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Bydd y Panel adolygu yn rhoi i Medr fanylion yr Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl a adolygir, manylion y seiliau y mae'r cais am adolygiad wedi cael ei wneud arnynt a chopi o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y corff llywodraethu i ategu’r cais am adolygiad.

8.3.12. Gall y Panel adolygu wneud cais ysgrifenedig am ragor o wybodaeth gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu at ddibenion yr adolygiad. Bydd unrhyw gais am ragor o wybodaeth a wneir gan y Panel yn cael ei anfon at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Bydd yn ofynnol i Medr neu'r corff llywodraethu ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gan y Panel o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyroddi’r cais er mwyn iddi gael ei hystyried. O dan Reoliad 9(8), bydd y Panel yn ystyried a yw'n briodol caniatáu sylwadau gan naill ai Medr neu'r corff llywodraethu mewn cysylltiad ag unrhyw wybodaeth bellach a gyflwynir iddo mewn ymateb i'w gais am wybodaeth o'r fath; ac os yw'n ystyried ei bod yn briodol caniatáu sylwadau, bydd yn hysbysu Medr a'r corff llywodraethu yn unol â hynny. Bydd y Panel adolygu yn sicrhau bod Medr a'r corff llywodraethu ill dau yn cael yr holl wybodaeth a gyflwynwyd gan y parti arall.

8.3.13. Bydd y Panel adolygu yn ystyried yr wybodaeth y gofynnwyd amdani a gyflwynwyd gan Medr a'r corff llywodraethu wrth wneud ei benderfyniad. Bydd y Panel yn paratoi adroddiad ysgrifenedig a anfonir at Medr a'r corff llywodraethu ar yr un pryd. Byddwn yn ystyried adroddiad y Panel adolygu ac yn ailystyried ein penderfyniad i ddyroddi’r Hysbysiad. Bydd Medr wedyn yn hysbysu'r corff llywodraethu yn ysgrifenedig o fewn 40 o ddiwrnodau pa un a yw'r Hysbysiad yn sefyll ai peidio, ac yn darparu rheswm dros y penderfyniad hwnnw. Os mai penderfyniad Medr yw y dylai'r Hysbysiad sefyll, bydd y penderfyniad galluogi Medr i fwrw ymlaen â thynnu’r gymeradwyaeth yn ôl.


### Cam 3: Tynnu'r Gymeradwyaeth Yn Ôl

8.3.14. Unwaith y rhoddwyd yr Hysbysiad o Dynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl (gweler Paragraff 8.3.8), byddai disgwyl i'r gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unwaith fel arfer er mwyn osgoi unrhyw waethygiad yn yr effaith ar fyfyrwyr, arian cyhoeddus, asedau a ariennir yn gyhoeddus, enw da'r sector addysg uwch ac ati.

8.3.15. Bydd tynnu'r gymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad y sefydliad yn ôl gan Medr yn golygu bod y sefydliad yn peidio â bod yn Sefydliad Rheoleiddiedig. Felly, ni fydd cyrsiau'r sefydliad wedi eu dynodi'n awtomatig mwyach at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr.

8.3.16. Er mwyn lliniaru effaith tynnu cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad y sefydliad yn ôl ar fyfyrwyr presennol yn y sefydliad, bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith trwy reoliadau cymorth i fyfyrwyr o dan Adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Bydd y rhain yn gwneud darpariaeth i gymorth i fyfyrwyr barhau i'r myfyrwyr hynny sy'n dal i fod yn y sefydliad. Bydd dyletswydd asesu ansawdd Medr a'r swyddogaethau ymyrryd cysylltiedig yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r cyrsiau hynny sy'n dal i gael eu gwneud gan y myfyrwyr sy'n weddill.

## Siart Lif: Tynnu Cymeradwyaeth i Gynllun Ffioedd a Mynediad Yn Ôl o dan Adran 39 Deddf 2015



Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government